# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 1**

ATGYFNERTHU DEMOCRATIAETH LEOL

**PENNOD 1**

HYBU A CHEFNOGI AELODAETH O AWDURDODAU LLEOL

*Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr*

**1 Dyletswydd i gynnal arolwg**

(1) Rhaid i awdurdod lleol, yn unol â rheoliadau o dan yr adran hon, gynnal arolwg—

(a) o gynghorwyr yn ei ardal, a

(b) o ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol i swydd cynghorydd yn ei ardal.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gynnal arolwg ar ôl pob etholiad cyffredin—

(a) ar gyfer cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol, a

(b) ar gyfer cyngor cymuned yn ardal yr awdurdod lleol.

(3) Rhaid i'r arolwg gael ei gynnal—

(a) drwy ofyn cwestiynau rhagnodedig ar unrhyw ffurf ragnodedig neu mewn unrhyw ddull rhagnodedig, a

(b) drwy grynhoi'r wybodaeth ar unrhyw ffurf ragnodedig neu mewn unrhyw ddull rhagnodedig.

(4) Mae'r cwestiynau y caniateir eu rhagnodi o dan is-adran (3) yn cynnwys cwestiynau (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) ynglŷn â'r unigolyn y maent wedi eu cyfeirio ato ynghylch—

(a) rhywedd;

(b) cyfeiriadedd rhywiol;
(c) iaith;
(d) hil;
(e) oedran;
(f) anabledd;
(g) crefydd neu gred;
(h) iechyd;
(i) addysg a chymwysterau;
(j) cyflogaeth;
(k) gwaith fel cynghorydd.

(5) Nid oes dim yn yr adran hon sy'n gosod dyletswydd ar gynghorydd neu ymgeisydd na lwyddodd i gael ei ethol i swydd cynghorydd i ddarparu unrhyw wybodaeth.

(6) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i gynghorwyr ac ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol i swydd cynghorydd ddarparu gwybodaeth yn ddienw o dan yr adran hon.

(7) Yn yr adran hon—

ystyr "anabledd" (*"disability"*) yw amhariad corfforol neu feddyliol a chanddo effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau beunyddiol normal;

ystyr "cred" ("*belief*") yw unrhyw gred grefyddol neu athronyddol ac mae cyfeiriad at gred yn cynnwys cyfeiriad at ddiffyg cred;

ystyr "crefydd" ("*religion*") yw unrhyw grefydd ac mae cyfeiriad at grefydd yn cynnwys cyfeiriad at ddiffyg crefydd;

ystyr "cyfeiriadedd rhywiol" (*"sexual orientation"*) yw cyfeiriadedd rhywiol person—

(a) tuag at bersonau o'r un rhyw,
(b) tuag at bersonau o'r rhyw arall, neu
(c) tuag at bersonau o'r naill ryw neu'r llall;

mae "cynghorydd" ("*councillor*") yn cynnwys cynghorydd cymuned;

ystyr "hil" (*"race"*) yw lliw, cenedligrwydd neu darddiad ethnig neu genedlaethol.

## 2 Cwblhau arolwg a chyhoeddi gwybodaeth

(1) Rhaid i awdurdod lleol gwblhau ei arolwg a darparu'r wybodaeth sy'n cael ei chrynhoi ganddo i Weinidogion Cymru cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiad cyffredin y mae'n ymwneud ag ef.

(2) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth ar unrhyw ffurf ragnodedig neu mewn unrhyw ddull rhagnodedig.

(3) Caiff awdurdod lleol gyhoeddi'r wybodaeth sy'n cael ei chrynhoi gan arolwg yn y dull y mae o'r farn ei bod yn briodol ei chyhoeddi, yn ddarostyngedig i is-adran (6).

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) crynhoi'r wybodaeth a gânt oddi wrth awdurdodau lleol o dan yr adran hon, a
(b) ei chyhoeddi cyn pen deuddeng mis ar ôl dyddiad yr etholiad cyffredin y mae'n ymwneud ag ef.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi gwybodaeth o dan is-adran (4)(b) yn y dull y maent o'r farn ei bod yn briodol ei chyhoeddi, yn ddarostyngedig i is-adran (6);

(b) rhannu unrhyw wybodaeth a ddarperir iddynt o dan is-adran (1) ag unrhyw gorff sy'n cynrychioli buddiannau cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau cymuned yng Nghymru.

(6) Nid yw unrhyw wybodaeth a geir o dan adran 1 neu'r adran hon i'w chyhoeddi na'i rhannu ar unrhyw ffurf sydd, naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag unrhyw wybodaeth arall, yn datgelu pwy yw unrhyw unigolyn y mae'n ymwneud ag ef neu'n ei gwneud yn bosibl i'r unigolyn hwnnw gael ei adnabod.

## 3 Canllawiau ynghylch arolygon

Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 1 a 2, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

*Cefnogi aelodaeth*

## 4 Mynychu cyfarfodydd o bell

(1) Nid yw cyfeiriad mewn unrhyw ddeddfiad at gyfarfod o awdurdod lleol wedi ei gyfyngu i gyfarfod o bob person y mae pob un ohonynt yn bresennol yn yr un fangre.

(2) At ddibenion unrhyw ddeddfiad o'r fath, mae aelod o awdurdod lleol nad yw'n bresennol yn y fangre lle y cynhelir cyfarfod o'r awdurdod hwnnw ("aelod sy'n mynychu o bell") yn mynychu'r cyfarfod ar unrhyw adeg os bydd pob un o'r amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni.

(3) Yr amodau hynny yw—

(a) bod yr aelod sy'n mynychu o bell, ar yr adeg honno—

(i) yn gallu gweld a chlywed yr aelodau sy'n mynychu'r fangre, a'i fod yn gallu cael ei weld a'i glywed ganddynt,

(ii) yn gallu gweld a chlywed unrhyw aelodau o'r cyhoedd a chanddynt hawl i fynychu'r cyfarfod sy'n bresennol yn y fangre honno ac sy'n arfer hawl i siarad yn y cyfarfod, a'i fod yn gallu cael ei weld a'i glywed ganddynt, a

(iii) yn gallu cael ei weld a'i glywed gan unrhyw aelodau eraill o'r cyhoedd a chanddynt hawl felly i fod yn bresennol yn y fangre honno;

(b) bod yr aelod sy'n mynychu o bell, ar yr adeg honno, yn gallu clywed unrhyw aelod arall sy'n mynychu o bell ac y mae'r amod ym mharagraff (a) wedi ei fodloni mewn cysylltiad ag ef ar yr adeg honno, a'i fod yn gallu cael ei glywed ganddo;

(c) nad yw defnyddio cyfleusterau sy'n galluogi'r amodau ym mharagraffau (a) a (b) i gael eu bodloni mewn cysylltiad a'r aelod sy'n mynychu o bell wedi ei wahardd gan y rheolau sefydlog neu gan unrhyw un neu ragor o reolau eraill yr awdurdod sy'n llywodraethu'r cyfarfod.

(4) Rhaid i reolau sefydlog awdurdod lleol sicrhau nad oes cworwm ar gyfer cyfarfod o'r awdurdod lleol ar unrhyw adeg pan fo nifer yr aelodau sy'n mynychu o bell yn hafal i nifer yr aelodau sy'n mynychu'r fangre neu'n fwy na'r nifer hwnnw.

(5) Caiff awdurdod lleol wneud rheolau sefydlog eraill ynghylch mynychu cyfarfodydd awdurdod lleol o bell.

(6) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â chyfarfodydd o'r awdurdod a fynychir o bell yn unol â'r adran hon.

(7) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â chyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor i awdurdod lleol fel y mae'n gymwys mewn perthynas â chyfarfod o awdurdod lleol.

(8) Ond ni chaiff person sy'n aelod cyfetholedig o bwyllgor neu is-bwyllgor fod yn aelod sy'n mynychu cyfarfod o bell yn rhinwedd yr adran hon.

(9) At ddiben yr adran hon—

(a) mae cyfeiriad at berson (A) yn gweld person arall (B) i'w ddehongli fel cyfeiriad at A yn gweld B pan fo B yn siarad yn y cyfarfod;

(b) mae cyfeiriad at berson (C) yn cael ei weld gan berson arall (D) i'w ddehongli fel cyfeiriad at C yn cael ei weld gan D pan fo C yn siarad yn y cyfarfod.

(10) Yn yr adran hon—

ystyr “aelod cyfetholedig” (“*co-opted member*”), mewn perthynas â phwyllgor neu is-bwyllgor i awdurdod lleol, yw person sy'n aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, ond nad yw'n aelod o'r awdurdod;

ystyr “aelod sy'n mynychu'r fangre” (“*member in actual attendance*”), mewn perthynas â chyfarfod o awdurdod lleol, yw aelod o'r awdurdod sy'n mynychu'r cyfarfod yn y fangre lle y cynhelir y cyfarfod.

## 5 Adroddiadau blynyddol gan aelodau o awdurdod lleol

(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau—

(a) i bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,

(b) i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac

(c) i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.

(2) Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni gan y person sydd yn ei lunio.

(3) Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.

(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

## 6 Amseru cyfarfodydd cyngor

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ynghylch amser cynnal cyfarfodydd awdurdod lleol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir o dan is-adran (1).

(3) Yn is-adran (1), ystyr “cyfarfodydd awdurdod lleol” yw—

(a) cyfarfodydd yr awdurdod lleol;
(b) cyfarfodydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod.

**7 Hyfforddi a datblygu aelodau o awdurdod lleol**

(1) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau y darperir cyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol i'w aelodau.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu'r aelod ar gael i bob aelod o'r awdurdod.

(3) Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle am gyfweliad gyda pherson sydd, ym marn yr awdurdod, yn briodol gymwys i roi cyngor am anghenion hyfforddi a datblygu aelod o awdurdod lleol.

(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Yn achos awdurdod sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), nid yw cyfeiriad yn yr adran hon at aelod o awdurdod lleol yn cynnwys yr arweinydd gweithrediaeth.

## PENNOD 2

GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AWDURDOD LLEOL

**8 Pennaeth gwasanaethau democrataidd**

(1) Rhaid i awdurdod lleol—
(a) dynodi un o'i swyddogion i gyflawni'r swyddogaethau yn adran 9 ("swyddogaethau gwasanaethau democrataidd");
(b) darparu i'r swyddog hwnnw y staff, y llety a'r adnoddau eraill sydd, ym marn yr awdurdod, yn ddigon i ganiatáu i swyddogaethau'r swyddog hwnnw gael eu cyflawni.

(2) Caiff pennaeth gwasanaethau democrataidd drefnu i swyddogaethau gwasanaethau democrataidd gael eu cyflawni gan staff a ddarperir o dan yr adran hon.

(3) Mae swyddog a ddynodir gan awdurdod lleol o dan yr adran hon i'w alw'n bennaeth gwasanaethau democrataidd.

(4) Ni chaiff awdurdod lleol ddynodi unrhyw un neu ragor o'r canlynol o dan yr adran hon—
(a) pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod a ddynodir o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;
(b) swyddog monitro'r awdurdod a ddynodir o dan adran 5 o'r Ddeddf honno;
(c) prif swyddog cyllid yr awdurdod, o fewn ystyr yr adran honno.

**9 Swyddogaethau gwasanaethau democrataidd**

(1) Y canlynol yw swyddogaethau pennaeth gwasanaethau democrataidd—

(a) rhoi cymorth a chyngor i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd, yn ddarostyngedig i is-adran (2);

(b) rhoi cymorth a chyngor i bwyllgorau'r awdurdod (ac eithrio'r pwyllgorau a grybwyllir ym mharagraff (e)) ac i aelodau o'r pwyllgorau hynny, yn ddarostyngedig i is-adran (2);

(c) rhoi cymorth a chyngor i unrhyw gyd-bwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu ac i aelodau o'r pwyllgor hwnnw, yn ddarostyngedig i is-adran (2);

(d) hybu rôl pwyllgor neu bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod;

(e) rhoi cymorth a chyngor—

(i) i bwyllgor neu bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod ac i aelodau o'r pwyllgor hwnnw neu'r pwyllgorau hynny, a

(ii) i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod ac i aelodau o'r pwyllgor hwnnw;

(f) rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgor neu bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod i bob un o'r canlynol—

(i) aelodau o'r awdurdod;

(ii) aelodau gweithrediaeth o'r awdurdod;

(iii) swyddogion yr awdurdod;

(g) rhoi cymorth a chyngor i bob aelod o'r awdurdod wrth iddo gyflawni rôl aelod o'r awdurdod, yn ddarostyngedig i is-adran (3);

(h) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(i) nifer y staff y mae eu hangen i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a'u graddau;

(ii) penodi staff i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;

(iii) trefnu a rheoli'n briodol staff sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd;

(i) unrhyw swyddogaethau eraill a ragnodir.

(2) Nid yw cyfeiriadau at “gyngor” ym mharagraffau (a) i (c) yn cynnwys cyngor ynghylch a ddylai neu sut y dylai swyddogaethau'r awdurdod gael eu harfer, neu fod wedi eu harfer.

(3) Nid yw'r mathau canlynol o gymorth a chyngor i'w hystyried yn gymorth a chyngor at ddibenion is-adran (1)(g)—

(a) cymorth a chyngor i aelod o'r awdurdod wrth i'r aelod hwnnw gyflawni ei swyddogaethau fel rhan o weithrediaeth yr awdurdod (ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer o dan is-adran (1)(f));

(b) cyngor ynghylch a ddylai neu sut y dylai swyddogaethau'r awdurdod gael eu harfer, neu fod wedi eu harfer, mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n cael ei ystyried, neu sydd i'w ystyried, mewn un o gyfarfodydd yr awdurdod, un o gyfarfodydd pwyllgor y cyfeiriwyd ato yn is-adran (1)(b) neu un o gyfarfodydd cyd-bwyllgor y mae awdurdod lleol yn gyfrifol am ei drefnu.

(4) Nid oes dim yn is-adran (1)(h) sy'n effeithio ar ddyletswydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig yn adran 4(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(5) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at bwyllgor (neu gyd-bwyllgor) yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw is-bwyllgor i'r pwyllgor hwnnw.

## 10 Dyletswydd i fabwysiadu rheolau sefydlog ynghylch rheoli staff

(1) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol drwy reoliadau i awdurdod lleol—

(a) ymgorffori darpariaeth ragnodedig sy'n ymwneud â rheoli staff a ddarperir o dan adran 8(1)(b) yn ei reolau sefydlog;

(b) gwneud addasiadau eraill i'r rhai o blith ei reolau sefydlog sy'n ymwneud â rheoli staff.

(2) Yn yr adran hon nid yw "rheoli staff" yn cynnwys penodi staff neu ddiswyddo staff neu gymryd camau disgyblu eraill yn erbyn staff.

## 11 Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau gwasanaethau democrataidd

(1) Rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor ("pwyllgor gwasanaethau democrataidd")—

(a) i arfer swyddogaeth yr awdurdod lleol o dan adran 8(1)(a) ("dynodi pennaeth gwasanaethau democrataidd"),

(b) i adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a

(c) i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

(2) Mater i bwyllgor gwasanaethau democrataidd ei benderfynu yw sut i arfer y swyddogaethau hynny.

## 12 Aelodaeth

(1) Mae awdurdod lleol i benodi aelodau o'i bwyllgor gwasanaethau democrataidd.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau—

(a) bod pob aelod o'i bwyllgor gwasanaethau democrataidd yn aelod o'r awdurdod;

(b) nad oes mwy nag un o aelodau ei bwyllgor gwasanaethau democrataidd yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod;

(c) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), nad yw'r arweinydd gweithrediaeth yn aelod o'i bwyllgor gwasanaethau democrataidd.

(3) Ni fydd penodi person yn aelod o bwyllgor gwasanaethau democrataidd yn cael unrhyw effaith os bydd aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2) yn union ar ôl ei benodi (p'un ai yn rhinwedd y penodiad ai peidio).

(4) Mewn achos pan fo un person neu ragor, ar adeg neilltuol, i'w wneud neu i'w gwneud yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor gwasanaethau democrataidd, neu i beidio â bod yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor gwasanaethau democrataidd, mae'r newidiadau hynny yn yr aelodaeth i'w hystyried wrth benderfynu a fyddai aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2).

(5) Mae pwyllgor gwasanaethau democrataidd i awdurdod lleol i'w drin fel corff y mae adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (dyletswydd i ddyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol) yn gymwys iddo.

## 13 Is-bwyllgorau

(1) Caiff pwyllgor gwasanaethau democrataidd—

(a) penodi un neu ragor o is-bwyllgorau, a

(b) trefnu i unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau gael ei chyflawni neu eu cyflawni gan is-bwyllgor o'r fath.

(2) Ni chaiff is-bwyllgor i bwyllgor gwasanaethau democrataidd gyflawni swyddogaethau ac eithrio'r rhai a roddwyd iddo o dan is-adran (1)(b).

## 14 Trafodion etc

(1) Mae awdurdod lleol i benodi'r person sydd i gadeirio'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd (a rhaid iddo beidio â bod yn aelop o grŵp gweithrediaeth).

(2) Os nad oes unrhyw grwpiau gwrthblaid, caiff y person sydd i gadeirio'r pwyllgor gwasanaethau democrataidd fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol.

(3) Mae pwyllgor gwasanaethau democrataidd i benodi'r person sydd i gadeirio unrhyw is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath.

(4) Caiff pob aelod o bwyllgor gwasanaethau democrataidd, neu o is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae'n dod i ran y pwyllgor i benderfynu arno.

(5) Caiff pwyllgor gwasanaethau democrataidd i awdurdod lleol, neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath—

(a) ei gwneud yn ofynnol i aelodau a swyddogion yr awdurdod ddod ger ei fron i ateb cwestiynau, a

(b) gwahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

(6) Mae'n ddyletswydd ar unrhyw aelod o awdurdod lleol neu unrhyw swyddog i awdurdod lleol i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (5)(a).

(7) Nid yw person yn cael ei orfodi gan is-adran (6) i ateb unrhyw gwestiwn y byddai ganddo hawl i wrthod ei ateb mewn achos llys yng Nghymru a Lloegr neu at ddibenion achos llys o'r fath.

(8) Mae pwyllgor gwasanaethau democrataidd, neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, i'w drin fel pwyllgor, neu is-bwyllgor, i brif gyngor at ddibenion Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cael mynd i gyfarfodydd a chael gweld dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol).

(9) At ddibenion is-adrannau (1) a (2), mae i'r ymadroddion "grŵp gweithrediaeth" a "grŵp gwrthblaid" yr un ystyr ag yn adran 75.

## 15 Cynnal cyfarfodydd: pa mor aml

(1) Rhaid i bwyllgor gwasanaethau democrataidd gyfarfod unwaith ym mhob blwyddyn galendr.

(2) Rhaid i bwyllgor gwasanaethau democrataidd i awdurdod lleol gyfarfod hefyd—

(a) os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r pwyllgor gyfarfod, neu

(b) os yw traean o leiaf o aelodau'r pwyllgor yn hawlio cyfarfod drwy gyfrwng un neu ragor o hysbysiadau ysgrifenedig a roddir i'r person sy'n cadeirio'r pwyllgor.

(3) Mae dyletswydd ar y person sy'n cadeirio pwyllgor gwasanaethau democrataidd i sicrhau bod cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cynnal fel y mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol.

(4) Nid yw'r adran hon yn atal pwyllgor gwasanaethau democrataidd rhag cyfarfod ac eithrio fel y mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol.

## 16 Cyflawni swyddogaethau

(1) Ni chaiff pwyllgor gwasanaethau democrataidd arfer unrhyw swyddogaethau ac eithrio ei swyddogaethau o dan y Bennod hon.

(2) Wrth arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, neu benderfynu ai i'w harfer, rhaid i bwyllgor gwasanaethau democrataidd, neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

## 17 Terfynu aelodaeth pan fo person yn peidio â bod yn aelod o awdurdod

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson (P)—

(a) a benodir yn aelod o bwyllgor gwasanaethau democrataidd awdurdod lleol, neu o is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, a

(b) sy'n aelod o'r awdurdod ar adeg y penodiad hwnnw.

(2) Os yw P yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod, mae P hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor gwasanaethau democrataidd.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os yw P—

(a) yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod oherwydd iddo ymddeol, a

(b) yn cael ei ailethol yn aelod o'r awdurdod heb fod yn hwyrach na diwrnod ei ymddeoliad.

(4) Mae is-adran (3) yn ddarostyngedig i reolau sefydlog yr awdurdod neu rai'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor gwasanaethau democrataidd.

## 18 Adroddiadau ac argymhellion gan bennaeth y gwasanaethau democrataidd

(1) Rhaid i bennaeth gwasanaethau democrataidd ar gyfer awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl llunio adroddiad neu wneud argymhelliad o dan adran 9(1)(h), anfon at bob aelod o bwyllgor gwasanaethau democrataidd yr awdurdod gopi o'r adroddiad neu o'r argymhelliad.

(2) Rhaid i bwyllgor gwasanaethau democrataidd ystyried, mewn cyfarfod a gynhelir heb fod yn fwy na thri mis ar ôl i gopïau o'r adroddiad gael eu hanfon gyntaf at aelodau'r pwyllgor, unrhyw adroddiad neu argymhelliad a anfonir at aelodau'r pwyllgor o dan yr adran hon.

## 19 Adroddiadau ac argymhellion gan bwyllgorau gwasanaethau democrataidd

(1) Rhaid i bwyllgor gwasanaethau democrataidd ar gyfer awdurdod lleol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo lunio adroddiad neu wneud argymhelliad o dan adran 11(1)

(c), drefnu bod copi ohono'n cael ei anfon at bob aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod o'r pwyllgor.

(2) Rhaid i awdurdod lleol ystyried unrhyw adroddiad neu argymhellion mewn cyfarfod a gynhelir heb fod yn fwy na thri mis ar ôl i gopïau o'r adroddiad neu'r argymhelliad gael eu hanfon gyntaf at aelodau'r awdurdod.

**20 Swyddogaethau awdurdod lleol nad ydynt i'w dirprwyo**

Nid yw swyddogaethau awdurdod lleol o dan adrannau 8(1), 11, 12(1) a (2), 14(1), 15(2)(a) a 19(2) i'w dirprwyo o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**21 Swydd pennaeth gwasanaethau democrataidd i fod yn swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol**

(1) Diwygir adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (f) hepgorer "and".

(3) Ar ôl "delegated)" ym mharagraff (g) mewnosoder—

"; and

(h) the head of democratic services designated under section 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

## PENNOD 3

DEHONGLI

**22 Ystyr "aelod"**

Mae cyfeiriad yn y Rhan hon at aelod o awdurdod lleol yn cynnwys cyfeiriad at aelod gweithrediaeth etholedig (o fewn ystyr adran 39(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000).

# RHAN 2

ABSENOLDEB TEULUOL AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL

**23 Yr hawl i absenoldeb teuluol**

(1) Caiff aelod o awdurdod lleol a chanddo hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol fod yn absennol o gyfarfodydd o'r awdurdod yn ystod y cyfnod hwnnw o absenoldeb teuluol.

(2) Os aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol yw'r aelod, caiff yr aelod fod yn absennol o gyfarfodydd o'r weithrediaeth yn ystod y cyfnod hwnnw o absenoldeb teuluol.

(3) Mae is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i reoliadau o dan y Rhan hon.

(4) At ddibenion y Rhan hon, mae gan aelod hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol os oes gan yr aelod hawl i gyfnod—

(a) o absenoldeb mamolaeth (gweler adran 24),

(b) o absenoldeb newydd-anedig (gweler adran 25),

(c) o absenoldeb mabwysiadydd (gweler adran 26),
(d) o absenoldeb mabwysiadu newydd (gweler adran 27), neu
(e) o absenoldeb rhiant (gweler adran 28).

## 24 Absenoldeb mamolaeth

(1) Mae gan aelod o awdurdod lleol hawl i gyfnod o absenoldeb ("absenoldeb mamolaeth") os yw'r aelod yn bodloni amodau rhagnodedig o ran mamolaeth.

(2) Mae'r cyfnod o absenoldeb mamolaeth y mae gan yr aelod hawl iddo i'w gyfrifo'n unol â rheoliadau.

(3) Ni chaniateir i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer cyfnod o absenoldeb mamolaeth sy'n hwy na 26 o wythnosau.

(4) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu pryd y caniateir cymryd absenoldeb mamolaeth.

(5) Caiff rheoliadau ganiatáu i aelod ddewis, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhagnodedig, y dyddiad pryd y bydd cyfnod o absenoldeb mamolaeth yn dechrau.

(6) Caiff rheoliadau ragnodi amgylchiadau pan gaiff yr aelod o awdurdod lleol, neu pan gaiff yr awdurdod lleol—
(a) terfynu cyfnod o absenoldeb mamolaeth, neu
(b) diddymu cyfnod o absenoldeb mamolaeth.

## 25 Absenoldeb newydd-anedig

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i aelod o awdurdod lleol sy'n bodloni amodau rhagnodedig—
(a) o ran perthynas â phlentyn newydd-anedig neu blentyn a ddisgwylir, a
(b) o ran perthynas â mam y plentyn.

(2) Mae gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb ("absenoldeb newydd-anedig") at ddibenion—
(a) gofalu am y plentyn, neu
(b) cynorthwyo'r fam.

(3) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu—
(a) i ba raddau y mae gan aelod hawl i absenoldeb newydd-anedig mewn cysylltiad â phlentyn;
(b) pryd y caniateir cymryd absenoldeb newydd-anedig.

(4) Ni chaniateir i reoliadau ddarparu i gyfnod o absenoldeb newydd-anedig mewn cysylltiad â phlentyn fod yn hwy na dwy wythnos.

(5) Rhaid i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i absenoldeb newydd-anedig gael ei gymryd cyn diwedd cyfnod rhagnodedig.

(6) Rhaid i'r cyfnod hwnnw fod yn gyfnod o 56 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau ar ddyddiad geni'r plentyn.

(7) Caiff rheoliadau ragnodi amgylchiadau pan gaiff aelod o awdurdod lleol, neu pan gaiff yr awdurdod lleol—

(a) terfynu cyfnod o absenoldeb newydd-anedig, neu
(b) diddymu cyfnod o absenoldeb newydd-anedig.

(8) Caiff rheoliadau—
(a) (at ddibenion is-adran (2)) ragnodi pethau sydd i'w barnu neu beidio a'u barnu yn bethau sydd wedi eu gwneud at ddibenion gofalu am blentyn neu gynorthwyo mam y plentyn;
(b) caniatáu i aelod ddewis, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhagnodedig, y dyddiad pryd y bydd cyfnod o absenoldeb newydd-anedig yn dechrau;
(c) gwneud darpariaeth sy'n eithrio hawl i absenoldeb newydd-anedig mewn cysylltiad â phlentyn pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i'r un beichiogrwydd;
(d) gwneud darpariaeth ynghylch sut y ceir cymryd absenoldeb newydd-anedig.

(9) Pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i'r un beichiogrwydd, mae'r cyfeiriad yn is-adran (6) at ddyddiad geni'r plentyn i'w ddarllen fel cyfeiriad at ddyddiad geni'r plentyn cyntaf a gaiff ei eni o ganlyniad i'r beichiogrwydd.

(10) Yn yr adran hon—

mae "plentyn newydd-anedig" (*"newborn child"*) yn cynnwys plentyn marw-anedig ar ôl 24 o wythnosau o feichiogrwydd;

ystyr "wythnos" (*"week"*) yw unrhyw gyfnod o saith niwrnod.

## 26 Absenoldeb mabwysiadydd

(1) Mae gan aelod o awdurdod lleol hawl i gyfnod o absenoldeb ("absenoldeb mabwysiadydd") os yw'r aelod yn bodloni amodau rhagnodedig o ran mabwysiadu plentyn.

(2) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu—
(a) i ba raddau y mae gan aelod hawl i absenoldeb mabwysiadydd mewn cysylltiad â phlentyn;
(b) pryd y caniateir cymryd absenoldeb mabwysiadydd.

(3) Ni chaniateir i reoliadau ddarparu i gyfnod o absenoldeb mabwysiadydd mewn cysylltiad â phlentyn fod yn hwy na dwy wythnos.

(4) Caiff rheoliadau ganiatáu i aelod ddewis, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhagnodedig, y dyddiad pryd y bydd cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd yn dechrau.

(5) Caiff rheoliadau ragnodi amgylchiadau pan gaiff aelod o awdurdod lleol, neu pan gaiff yr awdurdod lleol—
(a) terfynu cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd, neu
(b) diddymu cyfnod o absenoldeb mabwysiadydd.

## 27 Absenoldeb mabwysiadu newydd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i aelod o awdurdod lleol sy'n bodloni amodau rhagnodedig—
(a) o ran perthynas â phlentyn a gafodd ei leoli, neu y disgwylir iddo gael ei leoli, ar gyfer ei fabwysiadu o dan gyfraith unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, a

(b) o ran perthynas â pherson y lleolir y plentyn gydag ef, neu y disgwylir iddo gael ei leoli gydag ef, ar gyfer ei fabwysiadu.

(2) Mae gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb ("absenoldeb mabwysiadu newydd") at ddibenion—
   (a) gofalu am y plentyn, neu
   (b) cynorthwyo'r person y mae'r aelod o'i herwydd yn bodloni'r amod o dan is-adran (1)(b).

(3) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu—
   (a) i ba raddau y mae gan aelod hawl i absenoldeb mabwysiadu newydd mewn cysylltiad â phlentyn;
   (b) pryd y caniateir cymryd absenoldeb mabwysiadu newydd.

(4) Ni chaniateir i reoliadau ddarparu i gyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd mewn cysylltiad â phlentyn fod yn hwy na dwy wythnos.

(5) Rhaid i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i absenoldeb mabwysiadu newydd gael ei gymryd cyn diwedd cyfnod rhagnodedig.

(6) Rhaid i'r cyfnod hwnnw fod yn gyfnod o 56 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau ar ddyddiad lleoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu.

(7) Caiff rheoliadau ragnodi amgylchiadau pan gaiff aelod o awdurdod lleol, neu pan gaiff yr awdurdod lleol—
   (a) terfynu cyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd, neu
   (b) diddymu cyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd.

(8) Caiff rheoliadau—
   (a) (at ddibenion is-adran (2)) ragnodi pethau sydd i'w barnu neu beidio a'u barnu yn bethau sydd wedi eu gwneud at ddibenion gofalu am blentyn neu gynorthwyo person y lleolir plentyn gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu;
   (b) caniatáu i aelod ddewis, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhagnodedig, y dyddiad pryd y bydd cyfnod o absenoldeb mabwysiadu newydd yn dechrau;
   (c) gwneud darpariaeth sy'n eithrio'r hawl i fod yn absennol o dan yr adran hon yn achos aelod sy'n arfer hawl i fod yn absennol oherwydd absenoldeb mabwysiadu;
   (d) gwneud darpariaeth sy'n eithrio hawl i absenoldeb mabwysiadu newydd mewn cysylltiad â phlentyn pan leolir mwy nag un plentyn ar gyfer ei fabwysiadu fel rhan o'r un trefniant;
   (e) gwneud darpariaeth ynghylch sut y ceir cymryd absenoldeb mabwysiadu newydd.

(9) Pan fo mwy nag un plentyn yn cael ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu fel rhan o'r un trefniant, mae'r cyfeiriad yn is-adran (6) at y dyddiad y cafodd y plentyn ei leoli i'w ddarllen fel cyfeiriad at y dyddiad y cafodd y plentyn cyntaf ei leoli fel rhan o'r trefniant.

(10) Yn yr adran hon, ystyr "wythnos" yw unrhyw gyfnod o saith niwrnod.

(11) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu bod yr adran hon yn gymwys mewn perthynas ag achosion sy'n ymwneud â mabwysiadu, ond nid â lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan gyfraith unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

## 28 Absenoldeb rhiant

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i aelod o awdurdod lleol sy'n bodloni amodau rhagnodedig o ran—

(a) ysgwyddo cyfrifoldeb am blentyn; neu

(b) disgwyl ysgwyddo cyfrifoldeb am blentyn.

(2) Mae gan yr aelod hawl i gyfnod o absenoldeb ("absenoldeb rhiant") at ddibenion gofalu am y plentyn.

(3) Rhaid i reoliadau gynnwys darpariaeth ar gyfer penderfynu—

(a) i ba raddau y mae gan aelod hawl i absenoldeb rhiant mewn cysylltiad â phlentyn;

(b) pryd y caniateir cymryd yr absenoldeb rhiant.

(4) Ni chaniateir i reoliadau ddarparu i absenoldeb rhiant mewn cysylltiad â phlentyn fod yn hwy na chyfnod o dri mis neu gyfanswm o dri mis.

(5) Caiff darpariaeth o dan is-adran (3)(b) gyfeirio at y canlynol (ymhlith pethau eraill)—

(a) oedran plentyn, neu

(b) cyfnod rhagnodedig o amser sy'n dechrau gyda digwyddiad rhagnodedig.

(6) Caiff rheoliadau ragnodi amgylchiadau pan gaiff aelod o awdurdod lleol, neu pan gaiff yr awdurdod lleol—

(a) terfynu cyfnod o absenoldeb rhiant, neu

(b) diddymu cyfnod o absenoldeb rhiant.

(7) Caiff rheoliadau—

(a) (at ddibenion is-adran (2)), ragnodi pethau sydd i'w barnu neu beidio a'u barnu yn bethau sydd wedi eu gwneud, at ddibenion gofalu am blentyn;

(b) ei gwneud yn ofynnol bod absenoldeb rhiant yn cael ei gymryd fel un cyfnod o absenoldeb ym mhob achos neu mewn achosion penodedig;

(c) ei gwneud yn ofynnol bod absenoldeb rhiant yn cael ei gymryd fel cyfres o gyfnodau o absenoldeb ym mhob achos neu mewn achosion rhagnodedig;

(d) ei gwneud yn ofynnol bod yr holl gyfnod o absenoldeb rhiant neu rannau rhagnodedig ohono yn cael ei gymryd neu eu cymryd ar adegau rhagnodedig neu erbyn adegau rhagnodedig;

(e) caniatáu i aelod ddewis, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau rhagnodedig, y dyddiad y mae cyfnod o absenoldeb rhiant yn dechrau;

(f) gwneud darpariaeth i awdurdod lleol ohirio cyfnod o absenoldeb rhiant y mae aelod yn dymuno ei gymryd;

(g) rhagnodi cyfnod lleiaf o absenoldeb neu gyfnod mwyaf o absenoldeb y caniateir ei gymryd fel rhan o gyfnod absenoldeb rhiant;

(h) rhagnodi uchafswm agregiad y cyfnodau o absenoldeb rhiant y caniateir eu cymryd yn ystod cyfnod rhagnodedig o amser.

## 29 Rheoliadau: atodol

Caiff rheoliadau o dan y Rhan hon—

(a) gwneud darpariaeth ynghylch hysbysiadau sydd i'w rhoi, tystiolaeth sydd i'w dangos, cofnodion sydd i'w cadw a gweithdrefnau eraill sydd i'w dilyn gan aelod o awdurdod lleol neu gan awdurdod lleol;

(b) gwneud darpariaeth ar gyfer canlyniadau methu â rhoi hysbysiadau, dangos tystiolaeth, cadw cofnodion neu gydymffurfio â gofynion gweithdrefnol eraill;

(c) gwneud darpariaeth ar gyfer canlyniadau methu â gweithredu yn unol â hysbysiad a roddwyd yn rhinwedd paragraff (a);

(d) gwneud darpariaeth yn rhoi hawl i aelod o awdurdod lleol (neu o'r weithrediaeth) i gyflwyno cwyn ynghylch penderfyniad gan awdurdod lleol i derfynu cyfnod o absenoldeb neu i ohirio neu ddiddymu cyfnod o absenoldeb;

(e) gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â hawl a roddir yn rhinwedd paragraff (d) gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ddarpariaeth ynghylch—

(i) ar ba sail y caniateir cyflwyno cwyn;

(ii) y person y caniateir cyflwyno cwyn iddo;

(iii) yr amodau gweithdrefnol i'w bodloni;

(iv) gwneud cwyn, penderfynu arni a'i heffaith;

(f) gwneud darpariaeth o ran aelod o awdurdod lleol (neu o'r weithrediaeth) ynghylch i ba raddau—

(i) y caiff weithredu fel aelod o'r awdurdod (neu o'r weithrediaeth) yn ystod cyfnod o absenoldeb;

(ii) y mae ganddo hawl i unrhyw fanteision sy'n dod iddo drwy aelodaeth o'r awdurdod (neu o'r weithrediaeth) yn ystod cyfnod o absenoldeb;

(iii) y mae'n rhwymedig o dan unrhyw ddyletswydd drwy aelodaeth o'r awdurdod (neu o'r weithrediaeth) yn ystod cyfnod o absenoldeb.

(g) cymhwyso deddfiad neu wneud addasiadau iddo.

## 30 Canllawiau

Wrth iddo arfer ei swyddogaethau, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â hawliau aelodau o'r awdurdod o dan y Rhan hon.

## 31 Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972

(1) Diwygir adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gadael swydd oherwydd methiant i fynychu cyfarfodydd) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (3A) mewnosoder—

"(3B) Subsections (3C) and (3D) apply for the purpose of calculating the period of six consecutive months under subsection (1) or (2A).

(3C) Any period during which a member of a local authority in Wales is exercising a right to absence under Part 2 of the Local Government (Wales) Measure 2011 is to be disregarded.

(3D) The following two periods are to be treated as consecutive—

(a) the period during which a member of a local authority in Wales fails to attend meetings of the authority or, as the case may be, meetings of the executive that falls immediately before the period described in subsection (3C), and

(b) the period that falls immediately after the period described in subsection (3C).".

## 32 Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000

(1) Diwygir adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (gweithrediaethau awdurdodau lleol) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-adran (8) ychwanegwch—

"(8A) For the purposes of subsection (8), no account is to be taken of a member appointed to the executive on a temporary basis to cover the absence of a member exercising a right to a family absence under Part 2 of the Local Government (Wales) Measure 2011.".

## 33 Dehongli Rhan 2

Yn y Rhan hon—

mae "aelod o awdurdod lleol" ("*member of a local authority*") yn cynnwys maer etholedig (o fewn ystyr adran 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) neu aelod gweithrediaeth etholedig (o fewn ystyr adran 39(4) o'r Ddeddf honno) o'r awdurdod;

ystyr "cyfarfod o'r awdurdod" (*"meeting of the authority"*) yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) cyfarfod o'r awdurdod lleol;

(b) cyfarfod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod;

(c) cyfarfod o unrhyw gyd-bwyllgor, cyd-fwrdd neu gorff arall y mae swyddogaethau'r awdurdod ar y pryd yn cael eu cyflawni ganddo;

(d) cyfarfod o unrhyw gorff a benodwyd i gynghori'r awdurdod ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau'r awdurdod;

(e) cyfarfod o unrhyw gorff y mae'r awdurdod yn cael ei gynrychioli arno.

ystyr "cyfarfod o'r weithrediaeth" (*"meeting of the executive"*) yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) cyfarfod o'r weithrediaeth;

(b) cyfarfod o unrhyw bwyllgor i'r weithrediaeth;

(c) cyflawni gan aelod sy'n gweithredu ar ei ben ei hun unrhyw swyddogaeth y mae gan y weithrediaeth gyfrifoldeb amdani;

ystyr "gweithrediaeth" (*"executive"*) yw unrhyw un o'r canlynol—

(a) gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru);

(b) gweithrediaeth maer a chabinet;

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

# RHAN 3

## TREFNIADAU LLYWODRAETHU SYDD AR GAEL

### *Gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor*

## 34 Diddymu gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor

(1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 11 (gweithrediaethau llywodraeth leol)—

(a) hepgorer is-adran (4) (gweithrediaeth maer a rheolwr cyngor);

(b) yn is-adran (10)—

(i) hepgorer "or an officer";

(ii) hepgorer "or (4)(b)".

(3) Hepgorer adran 16.

(4) Yn adran 26 (cynigion nad yw refferendwm yn ofynnol ar eu cyfer), yn is-adran (2)—

(a) ar ddiwedd paragraff (a) mewnosoder "or";

(b) hepgorer paragraff (b).

(5) Yn adran 48 (dehongli Rhan 2), yn is-adran (1), hepgorer y diffiniad o "council manager".

(6) Yn Atodlen 1 (trefniadau gweithrediaeth: darpariaeth bellach), hepgorer paragraff 3.

(7) Yn Neddf Llywodraeth Leol 1972—

(a) yn adran 21 (cyfansoddiad prif gynghorau yng Nghymru), yn is-adran (1A), hepgorer "or a mayor and council manager executive";

(b) yn adran 22 (y cadeirydd), yn is-adran (4A), hepgorer "or a mayor and council manager executive";

(c) yn adran 25A (teitl cadeirydd neu is-gadeirydd cyngor bwrdeistref sirol), yn is-adran (3)), hepgorer "or a mayor and council manager executive";

(d) yn adran 245 (statws dosbarthau, plwyfi a chymunedau penodol), yn is-adrannau (1A) a (4A), hepgorer "or a mayor and council manager executive";

(e) yn adran 270 (darpariaethau cyffredinol ynglŷn â dehongli), yn is-adran (1), yn y diffiniad ""mayor and cabinet executive" and "mayor and council manager executive"" hepgorer "and "mayor and council manager executive"".

(8) Yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989—

(a) yn adran 5 (dynodiad ac adroddiadau'r swyddog monitro), yn is-adran (3)(b), hepgorer y geiriau o "and, in a case where" hyd at ddiwedd paragraff (b);

(b) yn adran 5A (adroddiadau'r swyddog monitro - awdurdodau lleol yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth), yn is-adran (5)(b), hepgorer y geiriau o "and, where" hyd at ddiwedd paragraff (b);

(c) yn adran 13 (hawliau pleidleisio aelodau o bwyllgorau penodol: Cymru a Lloegr)—

(i) hepgorer is-adran (5A);

(ii) yn is-adran (9), hepgorer "and "mayor and council manager executive"";

(d) yn adran 21 (dehongli Rhan 1), yn is-adran (3), hepgorer ""council manager"" a "and "mayor and council manager executive"".

(9) Yn adran 106 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (treth gyngor a thâl cymunedol: cyfyngiadau ar bleidleisio)—

(a) yn is-adran (1), hepgorer "or a council manager within the meaning of section 11(4)(b) of the Local Government Act 2000";

(b) yn is-adran (2), hepgorer "or a council manager".

*Trefniadau amgen*

### 35 Awdurdodau i roi trefniadau gweithrediaeth yn lle trefniadau amgen

(1) Rhaid i awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen—

(a) rhoi'r gorau i weithredu trefniadau amgen, a

(b) dechrau gweithredu trefniadau gweithrediaeth.

(2) Mae Atodlen 1 yn cynnwys darpariaeth sy'n ychwanegu at yr adran hon.

(3) Wrth gydymffurfio â'r adran hon ac ag Atodlen 1, rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru.

### 36 Darpariaeth ganlyniadol etc

(1) Yn Neddf Llywodraeth Leol 2000—

(a) yn adran 29 (gweithredu trefniadau gweithrediaeth a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt), hepgorer is-adran (3);

(b) yn adran 31 (trefniadau amgen yn achos awdurdodau lleol penodol), o flaen is-adran (1) mewnosoder—

"(A1) In this section references to a local authority are references to a local authority in England.";

(c) yn adran 32 (trefniadau amgen), o flaen is-adran (1) mewnosoder—

"(A1) In this section references to a local authority are references to a local authority in England.";

(d) hepgorer adran 33 (gweithredu trefniadau amgen);

(e) yn adran 34 (refferendwm yn dilyn deiseb), yn is-adran (3), yn lle "29 or 33" rhodder "or 29";

(f) yn adran 35 (refferendwm yn dilyn cyfarwyddyd), yn is-adran (3), yn lle "29 or 33" rhodder "or 29";

(g) yn adran 36 (refferendwm yn dilyn gorchymyn), yn is-adran (3), yn lle "29 or 33" rhodder "or 29".

(2) Yn y Mesur hwn, hepgorer adran 87(3).

(3) Yn Neddf Llywodraeth Leol 1972—

(a) yn adran 70 (cyfyngu ar hybu Mesurau seneddol i newid ardaloedd llywodraeth leol, etc), yn is-adran (3), hepgorer "or alternative arrangements";

(b) yn adran 270 (darpariaethau cyffredinol ynglŷn â dehongli), yn is-adran (1) hepgorer y diffiniad o "alternative arrangements".

(4) Dirymir y rheoliadau a ganlyn—

(a) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (O.S 2001/2293);

(b) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/3158);

(c) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/397).

(5) Nid yw is-adrannau (1) i (4) yn atal awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen ar y dyddiad cychwyn rhag parhau i weithredu'r trefniadau hynny ar y diwrnod hwnnw ac wedi hynny.

(6) Nid yw is-adrannau (1) i (4) yn cael effaith mewn perthynas ag awdurdod lleol os yw'r awdurdod lleol yn parhau i weithredu trefniadau amgen ar y dyddiad cychwyn ac wedi hynny, ac am gyhyd ag y pery i wneud hynny.

(7) Nid yw is-adrannau (5) ac (6) yn effeithio ar ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 35.

(8) Yn yr adran hon, ystyr "dyddiad cychwyn" mewn perthynas â diwygiad a wneir gan yr adran hon, yw'r dyddiad y daw'r diwygiad hwnnw i rym.

## RHAN 4

NEWIDIADAU MEWN TREFNIADAU GWEITHREDIAETH

## PENNOD 1

MABWYSIADU FFURF WAHANOL AR WEITHREDIAETH

*Darpariaethau cyffredinol*

### 37 Y pŵer i fabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth

(1) Caiff awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth—

(a) amrywio trefniadau neu osod trefniadau yn lle'r rhai presennol fel bod ei drefniadau gweithrediaeth yn darparu ar gyfer ffurf wahanol ar weithrediaeth, a

(b) os yw'n gwneud amrywiad o'r fath i'r trefniadau, caiff amrywio'r trefniadau mewn ffyrdd eraill (os bydd rhai) sy'n briodol yn ei dyb ef.

(2) Mae'r pwerau a roddir gan is-adran (1) yn arferadwy'n unol â darpariaethau canlynol y Bennod hon.

(3) Ni chaiff awdurdod lleol ddefnyddio'r pŵer a roddir gan is-adran (1)(a) i amrywio ei drefniadau gweithrediaeth neu i roi trefniadau yn eu lle fwy nag unwaith mewn unrhyw gylch etholiadol.

(4) At y diben hwnnw, bernir bod awdurdod lleol yn defnyddio'r pŵer a roddir gan is-adran (1)(a) ar yr adeg pan fo'r awdurdod yn pasio penderfyniad o dan adran 38.

(5) Yn yr adran hon, ystyr "cylch etholiadol", mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw pob cyfnod—

(a) sy'n dechrau gydag etholiadau cyffredin i'r awdurdod, a

(b) sy'n dod i ben gyda'r etholiadau cyffredin nesaf i'r awdurdod.

(6) I gael y diffiniad o "ffurf ar weithrediaeth", gweler adran 53.

### 38 Y cynigion ar gyfer mabwysiadu ffurf wahanol ar weithrediaeth

(1) Rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynigion i amrywio ei drefniadau gweithrediaeth neu i roi trefniadau yn eu lle, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad (os bwriedir defnyddio'r pwerau a roddir gan adran 37).

(2) Wrth lunio'r cynigion, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried i ba raddau y bydd y cynigion yn debygol, os rhoddir hwy ar waith, o gynorthwyo i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae swyddogaethau'r awdurdod yn cael eu harfer, gan roi sylw i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol anfon at Weinidogion Cymru—

(a) copi o'r cynigion a gymeradwywyd ganddo, a

(b) (gyda'r copi o'r cynigion) ddatganiad sy'n disgrifio'r rhesymau pam bod yr awdurdod o'r farn y byddai ei gynigion yn debygol, pe byddent yn cael eu rhoi ar waith, o sicrhau bod penderfyniadau'r awdurdod yn cael eu gwneud mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu ai i gymeradwyo'r cynigion ai peidio.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig am eu penderfyniad.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru'n rhoi hysbysiad am benderfyniad i beidio â chymeradwyo'r cynigion, rhaid i'r awdurdod lleol beidio â chymryd unrhyw gamau pellach i roi'r cynigion ar waith ar ôl i'r hysbysiad gael ei roi.

### 39 Cynnwys y cynigion

Rhaid i gynigion awdurdod lleol gynnwys pob un o'r canlynol—

(a) datganiad ynghylch i ba raddau y mae'r weithrediaeth i fod yn gyfrifol am swyddogaethau a bennir mewn rheoliadau o dan adran 13(3)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o dan y trefniadau gweithrediaeth arfaethedig,

(b) amserlen mewn cysylltiad â rhoi'r cynigion ar waith, ac

(c) manylion am unrhyw drefniadau trosiannol sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith.

### 40 Refferenda

(1) Rhaid i'r cynigion ddarparu bod newid mewn trefniadau gweithrediaeth yn ddarostyngedig i'w gymeradwyo mewn refferendwm os yw'r newid mewn trefniadau gweithrediaeth yn un y mae'n ofynnol ei gymeradwyo mewn refferendwm.

(2) Ond, mewn unrhyw achos arall, ni chaiff y cynigion ddarparu bod newid mewn trefniadau gweithrediaeth yn ddarostyngedig i'w gymeradwyo mewn refferendwm.

(3) Am ddarpariaeth ynghylch refferenda o dan yr adran hon, gweler adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

### 41 Yr amserlen ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith: dim refferendwm

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion awdurdod lleol os nad yw newid mewn trefniadau gweithrediaeth yn ddarostyngedig i'w gymeradwyo mewn refferendwm.

(2) Rhaid i'r amserlen mewn cysylltiad â rhoi'r cynigion ar waith fod yn un sy'n sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gwneud y newid mewn trefniadau gweithrediaeth heb fod yn hwyrach na diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y bydd yr awdurdod lleol yn anfon y copi o'r cynigion at Weinidogion Cymru.

## 42 Yr amserlen ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith: refferendwm

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gynigion awdurdod lleol os yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth yn ddarostyngedig i'w chymeradwyo mewn refferendwm.

(2) Rhaid i'r amserlen mewn cysylltiad â rhoi'r cynigion ar waith gydymffurfio ag is-adrannau (3) a (4).

(3) Rhaid i'r amserlen fod yn un sy'n sicrhau y bydd yr awdurdod lleol yn cynnal y refferendwm o fewn y cyfnod—

(a) sy'n dechrau ddeufis, a

(b) sy'n dod i ben chwe mis

ar ôl y diwrnod y bydd yr awdurdod lleol yn anfon y copi o'r cynigion at Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i'r amserlen fod yn un sy'n sicrhau y bydd yr awdurdod lleol, os canlyniad y refferendwm yw cymeradwyo newid mewn trefniadau gweithrediaeth, yn gwneud y newid hwnnw cyn pen cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y cynhelir y refferendwm.

## 43 Cyhoeddusrwydd i'r cynigion

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i awdurdod lleol sydd wedi cymeradwyo cynigion drwy benderfyniad.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau gweithrediaeth arfaethedig ar gael yn ei brif swyddfa i'w harchwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad—

(a) sy'n datgan bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu gweithredu'r trefniadau gweithrediaeth arfaethedig,

(b) os yw'r ffurf arfaethedig ar weithrediaeth yn ddarostyngedig i'w chymeradwyo mewn refferendwm, sy'n datgan—

(i) ei bod yn ddarostyngedig i'r gymeradwyaeth honno, a

(ii) dyddiad y refferendwm,

(c) sy'n datgan y dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu dechrau gweithredu'r trefniadau hynny,

(d) sy'n disgrifio prif nodweddion y trefniadau hynny,

(e) sy'n datgan bod copïau o ddogfen sy'n nodi darpariaethau'r trefniadau hynny ar gael ym mhrif swyddfa'r awdurdod lleol i'w harchwilio gan y cyhoedd ar yr adegau a bennir yn yr hysbysiad, ac

(f) sy'n rhoi cyfeiriad prif swyddfa'r awdurdod lleol.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag is-adrannau (2) a (3) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo basio'r penderfyniad yn cymeradwyo'r cynigion.

## 44 Rhoi'r cynigion ar waith

(1) Rhaid i awdurdod lleol roi ei gynigion ar waith yn unol â'r amserlen sydd wedi ei chynnwys yn y cynigion.

(2) Ond o ran newid mewn trefniadau gweithrediaeth—
  (a) os yw'n ddarostyngedig i'w gymeradwyo mewn refferendwm, a
  (b) os nad yw'n cael ei gymeradwyo yn y refferendwm,

ni chaniateir i'r awdurdod lleol roi'r newid ar waith.

## 45 Camau gweithredu os yw'r newid yn cael ei wrthod mewn refferendwm

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i awdurdod lleol—
  (a) os yw'r newid mewn trefniadau gweithrediaeth yn ddarostyngedig i'w gymeradwyo mewn refferendwm, a
  (b) os nad yw'r newid mewn trefniadau gweithrediaeth yn cael ei gymeradwyo yn y refferendwm.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad—
  (a) sy'n crynhoi cynigion yr awdurdod lleol a oedd yn destun y refferendwm,
  (b) sy'n datgan bod refferendwm ar gynigion yr awdurdod lleol wedi gwrthod y cynigion hynny, ac
  (c) sy'n datgan y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i weithredu'r ffurf ar weithrediaeth y darperir ar ei chyfer gan ei drefniadau gweithrediaeth presennol.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio ag is-adran (2) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y refferendwm.

*Dehongli*

## 46 Newid mewn trefniadau gweithrediaeth y mae'n ofynnol ei gymeradwyo mewn refferendwm.

At ddibenion y Bennod hon, bydd yn ofynnol cymeradwyo newid mewn trefniadau gweithrediaeth mewn refferendwm os gweithrediaeth maer a chabinet yw—
  (a) ffurf bresennol y weithrediaeth, neu
  (b) ffurf arfaethedig y weithrediaeth.

## 47 Dehongli

Yn y Bennod hon—

ystyr “cynigion” (“*proposals*”) yw cynigion o dan adran 38;

ystyr “ffurf arfaethedig ar weithrediaeth” (“*proposed form of executive*”) yw'r ffurf ar weithrediaeth y mae awdurdod lleol, yn ei gynigion, yn arfaethu dechrau ei gweithredu;

ystyr “ffurf bresennol ar weithrediaeth” (“*existing form of executive*”) yw'r ffurf ar weithrediaeth sy'n cael ei gweithredu gan awdurdod lleol sy'n gwneud cynigion;

ystyr "newid mewn trefniadau gweithrediaeth" *("change of executive arrangements")* yw'r newid mewn trefniadau gweithrediaeth a gynigir yn y cynigion.

## PENNOD 2

AMRYWIADAU ERAILL AR DREFNIADAU GWEITHREDIAETH PRESENNOL

### 48 Y pŵer i amrywio'r ffurf bresennol ar weithrediaeth

(1) Caiff awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth amrywio'r trefniadau fel eu bod—

(a) yn wahanol i'r trefniadau presennol ar unrhyw agwedd, ond

(b) yn dal i ddarparu ar gyfer yr un ffurf ar weithrediaeth.

(2) Mae'r pŵer a roddir gan is-adran (1) yn arferadwy yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Bennod hon.

(3) Am y diffiniad o "ffurf ar weithrediaeth", gweler adran 53.

### 49 Y cynigion ar gyfer amrywio'r ffurf ar weithrediaeth

(1) Rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynigion i amrywio ei drefniadau gweithrediaeth, a'u cymeradwyo drwy benderfyniad (os bwriedir defnyddio'r pwerau a roddir gan adran 48).

(2) Ond, os yw'r awdurdod lleol yn gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, ni chaiff yr awdurdod lleol gymeradwyo cynigion i amrywio ei drefniadau gweithrediaeth onid yw'r maer etholedig wedi rhoi cydsyniad ysgrifenedig i'r newid arfaethedig.

### 50 Cynnwys y cynigion

Rhaid i gynigion awdurdod lleol gynnwys pob un o'r canlynol—

(a) amserlen mewn cysylltiad â rhoi'r cynigion ar waith, a

(b) manylion unrhyw drefniadau trosiannol sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r cynigion ar waith.

### 51 Rhoi'r cynigion ar waith

Rhaid i awdurdod lleol roi ei gynigion ar waith yn unol â'r amserlen sydd wedi ei chynnwys yn y cynigion.

## PENNOD 3

ATODOL

### 52 Y pwerau sy'n caniatáu amrywio pwerau gweithrediaeth

Ni chaniateir i awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth amrywio'r trefniadau hynny neu roi trefniadau yn lle'r trefniadau hynny ac eithrio fel a ddarperir yn—

(a) Pennod 1 neu 2 o'r Rhan hon, neu

(b) rheoliadau o dan adran 34, 35 neu 36 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

### 53 Ffurfiau ar weithrediaeth

At ddibenion y Rhan hon, mae pob un o'r canlynol yn ffurf ar weithrediaeth—

(a) gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru);

(b) gweithrediaeth maer a chabinet.

### 54 Darpariaeth ganlyniadol etc

(1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel a ganlyn.

(2) Hepgorer adran 30 (gweithredu gwahanol drefniadau gweithrediaeth).

(3) O flaen adran 33A mewnosoder—

> "**33ZA Wales: changing governance arrangements**
>
> For provision about changing the governance arrangements of local authorities in Wales, see Part 4 of the Local Government (Wales) Measure 2011.".

(4) Yn adran 45 (darpariaethau mewn cysylltiad â refferenda), yn is-adran (9), ar ôl "this Part" mewnosoder "or under section 40 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

## RHAN 5

SWYDDOGAETHAU AWDURDOD LLEOL:
CYFLAWNI GAN BWYLLGORAU A CHYNGHORWYR

*Pwyllgorau ardal*

### 55 Yr ardal a gwmpesir ac aelodaeth

(1) Diwygir adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (cyflawni swyddogaethau gan bwyllgorau ardal) fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3), yn lle'r diffiniad o "area committee" rhodder—

> ""area committee" means—

*Statws This is the original version (as it was originally enacted).*

(a) in relation to a local authority in England, a committee or sub-committee of the authority which satisfies the conditions in subsection (4);

(b) in relation to a local authority in Wales, a committee or sub-committee of the authority which satisfies the conditions in subsection (6);".

(3) Yn is-adran (4), ar ôl "a local authority" mewnosoder "in England".

(4) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder—

"(6) A committee or sub-committee of a local authority in Wales satisfies the conditions in this subsection if—

(a) the committee or sub-committee is established to discharge functions in respect of part of the area of the authority,

(b) that part consists of the whole of one or more electoral divisions of the authority,

(c) all the members of the authority who are elected for that electoral division, or those electoral divisions, are entitled to be members of the committee or sub-committee,

(d) no members of the authority, other than those mentioned in paragraph (c), may be members of the committee or sub-committee, and

(e) either or both of the conditions in subsection (7) are satisfied in relation to that part.

(7) Those conditions are—

(a) that the area of that part does not exceed one-half of the total area of the authority;

(b) that the population of that part, as estimated by the authority, does not exceed one-half of the total population of the area of the authority as so estimated.".

*Arfer swyddogaethau gan gynghorwyr*

## 56 Arfer swyddogaethau gan gynghorwyr

(1) Caiff aelod gweithrediaeth hŷn awdurdod lleol wneud trefniadau i aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod gweithrediaeth arfer un o swyddogaethau'r awdurdod lleol y mae'r weithrediaeth yn gyfrifol amdani.

(2) Caiff awdurdod lleol wneud trefniadau i aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod gweithrediaeth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau eraill yr awdurdod.

(3) O ran aelod nad yw'n aelod gweithrediaeth (N), dim ond swyddogaethau—

(a) mewn perthynas â'r adran etholiadol y mae N wedi ei ethol drosti, neu

(b) mewn perthynas â bod N yn aelod swyddogol o gorff ac eithrio'r awdurdod lleol

y caiff trefniadau o dan yr adran hon ddarparu i N eu harfer.

(4) Ni cheir gwneud trefniadau o dan yr adran hon ar gyfer arfer swyddogaeth—

(a) os yw wedi ei phennu, neu i'r graddau y mae wedi ei phennu, mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, neu

(b) mewn dull, neu mewn amgylchiadau, a bennwyd mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.

(5) Nid yw trefniadau a wneir o dan yr adran hon ar gyfer arfer swyddogaeth yn atal arfer y swyddogaeth honno mewn modd arferol.

(6) Wrth wneud trefniadau o dan yr adran hon, rhaid i'r aelod gweithrediaeth hŷn, neu'r awdurdod lleol, roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(7) Yn yr adran hon—

(a) mae cyfeiriad at arfer swyddogaeth yn cynnwys cyfeiriad at wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer swyddogaeth, neu sy'n gydnaws neu'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaeth;

(b) mae cyfeiriad at swyddogaeth y mae gweithrediaeth awdurdod lleol yn gyfrifol amdani i'w ddehongli'n unol ag adran 13(8) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(c) mae cyfeiriad at fod N yn aelod swyddogol o gorff yn gyfeiriad at fod N yn aelod o'r corff yn rhinwedd—

(i) penodiad gan awdurdod lleol,

(ii) penodiad, ac eithrio penodiad gan awdurdod lleol, a wnaed ar sail enwebiad neu argymhelliad gan awdurdod lleol neu gyda chymeradwyaeth awdurdod lleol, neu

(iii) penodiad, ac eithrio penodiad gan awdurdod lleol, a wnaed i gydymffurfio â gofyniad i benodi aelod o awdurdod lleol;

(d) mae cyfeiriad (mewn perthynas ag N) at benodiad, enwebiad neu argymhelliad gan awdurdod lleol, neu gymeradwyaeth awdurdod lleol, yn gyfeiriad at benodiad, enwebiad neu argymhelliad a wnaed gan y canlynol, neu gymeradwyaeth a roddir gan y canlynol—

(i) yr awdurdod lleol y mae N yn aelod ohono, neu

(ii) gweithrediaeth yr awdurdod lleol hwnnw;

(e) mae cyfeiriad at arfer arferol swyddogaeth yn gyfeiriad at arfer y swyddogaeth gan y person neu'r personau sy'n ei harfer pan nad oes trefniadau wedi eu gwneud o dan yr adran hon.

(8) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at awdurdod lleol yn gyfeiriadau at awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth.

(9) Yn yr adran hon—

ystyr "aelod gweithrediaeth hŷn" (*"senior executive member"*) yw—

(a) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), yr arweinydd gweithrediaeth;

(b) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, y maer etholedig;

ystyr "aelod nad yw'n aelod gweithrediaeth" (*"non-executive member"*) yw aelod o awdurdod lleol nad yw'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod.

## 57 Darpariaeth ganlyniadol

(1) Yn adran 100EA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (archwilio cofnodion sy'n ymwneud â swyddogaethau sy'n arferadwy gan aelodau)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) yn lle "Secretary of State" rhodder "appropriate authority";

(ii) ar ôl "2007" mewnosoder "or under section 56 of the Local Government (Wales) Measure 2011";

(b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2A) In this section "appropriate authority" means—

(a) in relation to local authorities in England, the Secretary of State;

(b) in relation to local authorities in Wales, the Welsh Ministers.

(c) yn is-adran (3), ar ôl "Parliament" mewnosoder "(in the case of regulations made by the Secretary of State) or a resolution of the National Assembly for Wales (in the case of regulations made by the Welsh Ministers)".";

(2) Yn Neddf Llywodraeth Leol 2000—

(a) yn adran 13 (swyddogaethau y mae gweithrediaeth yn gyfrifol amdanynt), yn is-adran (9)(b), ar ôl "in England)" mewnosoder "or under section 56 of the Local Government (Wales) Measure 2011";

(b) yn adran 21 (pwyllgorau trosolwg a chraffu), yn is-adran (13)(aa), ar ôl "in England)" mewnosoder "or under section 56 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

## RHAN 6

## TROSOLWG A CHRAFFU

### PENNOD 1

### PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

*Y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu*

#### 58 Y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i ganiatáu i unrhyw ddau awdurdod lleol neu ragor wneud y canlynol—

(a) penodi cyd-bwyllgor ("cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu"), a

(b) trefnu i'r pwyllgor arfer unrhyw swyddogaethau o ran llunio adroddiadau neu wneud argymhellion i'r canlynol ynghylch unrhyw fater nad yw'n fater wedi ei eithrio—

(i) unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau lleol sy'n penodi'r pwyllgor, a

(ii) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth o dan Ran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gweithrediaeth yr awdurdod lleol.

(2) Yn is-adran (1)(b) ystyr "mater wedi ei eithrio" yw unrhyw fater y gallai pwyllgor trosedd ac anhrefn lunio adroddiad neu wneud argymhellion mewn cysylltiad ag ef—

(a) yn rhinwedd is-adran (1)(b) o adran 19 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (craffu gan awdurdodau lleol ar faterion trosedd ac anhrefn), neu

(b) yn rhinwedd is-adran (3)(a) o'r adran honno.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn rheoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) darpariaeth ar gyfer gwneud trefniadau dim ond mewn amgylchiadau rhagnodedig, neu'n ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau rhagnodedig;

(b) darpariaeth ar gyfer penodi is-bwyllgorau i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu;

(c) mewn perthynas â chyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu (neu is-bwyllgorau i bwyllgorau o'r fath) darpariaeth sy'n cymhwyso unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau'r canlynol, neu sy'n cyfateb iddi neu iddynt—

(i) is-adrannau (4) i (15A) a (18) o adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000,

(ii) adrannau 21A, 21B, 21D, 21F a 21G o'r Ddeddf honno,

(iii) adran 186 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac Atodlen 11 iddi.

(4) Rhaid i awdurdod lleol a chyd-bwyllgor trosolwg a chraffu, wrth arfer unrhyw swyddogaeth a roddir iddynt gan yr adran hon neu oddi tani, neu wrth benderfynu ai i'w harfer, roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(5) Yn adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (pwyllgorau trosolwg a chraffu), yn is-adran (2A)(e)—

(a) ar ôl "committee" mewnosoder "—

(i)";

(b) ar ôl "concerned" mewnosoder ", or

(ii) a joint overview and scrutiny committee within the meaning of section 58 of the Local Government (Wales) Measure 2011 appointed by two or more local authorities, one of which is the authority concerned".

*Pwerau pwyllgorau*

### 59 Craffu ar bersonau dynodedig

(1) Diwygir adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (pwyllgorau trosolwg a chraffu) fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2)(e), ar y diwedd mewnosoder "(insofar as the committee is not, or committees are not, under a duty to do those things by virtue of subsection (2ZA))".

(3) Ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

"(2ZA) Executive arrangements by a local authority in Wales must ensure that their overview and scrutiny committee is required (or their overview and scrutiny committees, and any joint overview and scrutiny committees, are required between them) to make reports or recommendations on matters which relate to designated persons and affect the authority's area or the inhabitants of that area.".

(4) Yn is-adran (2A), ar ôl "(2)" mewnosoder "or (2ZA)".

(5) Yn is-adran (13)—

(a) ym mharagraff (aa), hepgorer yr "and"olaf;

(b) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) if it is a committee or sub-committee of a local authority in Wales may, in connection with making a report or recommendations of the kind referred to subsection (2ZA)—

(i) require a designated person to provide the committee or sub-committee with information, except information that relates to an excluded matter, and

(ii) require an officer, employee or other representative of a designated person to attend meetings of the committee, except in relation to an excluded matter.".

(6) Ar ôl is-adran (15) mewnosoder—

"(15A) It is the duty of a person to comply with the requirement mentioned in subsection (13)(c)(i) or (ii); but that does not require a designated person to provide information which is not reasonably required in connection with the making of the report or recommendations.".

(7) Ar ôl is-adran (17) mewnosoder—

"(18) In this section—

"designated person" means a person—

(a) who is designated by the Welsh Ministers in accordance with section 21G, or

(b) who falls within a category of person so designated;

"excluded matter" means any matter with respect to which a crime and disorder committee could make a report or recommendations—

(a) by virtue of subsection (1)(b) of section 19 of the Police and Justice Act 2006 (local authority scrutiny of crime and disorder matters), or

(b) by virtue of subsection (3)(a) of that section.".

## 60 Hysbysu personau dynodedig am adroddiad neu argymhellion

Ar ôl adran 21E o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewnosoder—

### "21F Wales: notifying designated body of report or recommendations

(1) This section applies if an overview and scrutiny committee of a local authority in Wales, or a sub-committee of such a committee, makes a report or recommendations under section 21(2ZA).

(2) The committee or sub-committee may—

(a) send a copy of the report or recommendations to a designated person, and

(b) request the designated person to have regard to the report or recommendations.

(3) In sending a copy of the report or recommendations to the designated person, the committee or sub-committee—

(a) must exclude any confidential information, and

(b) may exclude any relevant exempt information.

(4) If information is excluded under subsection (3), in producing the copy of the report or recommendations the committee or sub-committee—

(a) may replace so much of the report or recommendations as discloses the information with a summary which does not disclose that information, and

(b) must do so if, in consequence of excluding the information, the report or recommendations would be misleading or not reasonably comprehensible.

(5) In this section—

"confidential information" has the meaning given by section 100A(3) of the Local Government Act 1972 (admission to meetings of principal councils);

"designated person" has the same meaning as in section 21;

"exempt information" has the meaning given by section 100I of that Act, and, in relation to any report or recommendations of a committee or joint committee which has functions under section 21(2)(f) of this Act, also includes information which is exempt information under section 186 of the National Health Service (Wales) Act 2006;

"relevant exempt information" means exempt information of a description specified in a resolution of the committee or sub-committee under section 100A(4) of the Local Government Act 1972 which applied to the proceedings, or part of the proceedings, at any meeting of the committee or sub-committee at which the report was, or recommendations were, considered.".

## 61 Personau dynodedig

Ar ôl adran 21F o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 mewnosoder—

"**21G Wales: designated persons**

(1) The Welsh Ministers may, by order, designate for the purposes of section 21—

(a) one or more persons, and

(b) one or more categories of person.

(2) But—

(a) the designation of a person has effect only if that person meets the following conditions, and

(b) the designation of a category of persons has effect only if, and to the extent that, each person in that category meets the following conditions.

(3) Condition A is that the person provides the public, or a section of the public, with services, goods or facilities of any description (whether on payment or not).

(4) Condition B is that the person—
(a) provides those services, goods or facilities in the exercise of functions of a public nature, or
(b) is wholly or partly funded by public money.

(5) Condition C is that the person is not a local authority.”.

*Rhoi sylw i safbwyntiau'r cyhoedd*

### 62 Rhoi sylw i safbwyntiau'r cyhoedd

(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau o'r math y cyfeirir atynt yn is-adran (2) mewn perthynas â phob un o bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod.

(2) Trefniadau yw'r trefniadau hynny sy'n galluogi'r holl bersonau sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol i ddwyn i sylw'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol eu safbwyntiau ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y pwyllgor.

(3) Rhaid i bwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol, pan fydd yn arfer ei swyddogaethau, roi sylw i unrhyw safbwyntiau a gaiff eu dwyn i'w sylw yn unol â threfniadau a wneir o dan yr adran hon.

(4) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(5) Wrth gydymffurfio ag is-adran (3), rhaid i bwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(6) Yn yr adran hon—

mae i “cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu” yr ystyr sydd i *“joint overview and scrutiny committee”* yn adran 21(2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr “mater sy'n cael ei ystyried” (“*matter under consideration*”), mewn perthynas â phwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol, yw mater y mae pwyllgor yn arfer unrhyw swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef;

ystyr “pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol” (*“relevant overview and scrutiny committee”*), mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw—
(a) pwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod,
(b) is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath,
(c) cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod, neu
(d) is-bwyllgor i gyd-bwyllgor o'r fath.

*Pwerau cynghorwyr*

### 63 Cyfeirio materion i bwyllgor trosolwg a chraffu etc

(1) Diwygir Adran 21A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (cyfeirio materion at bwyllgor trosolwg a chraffu etc) fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1)(c) hepgorer “in the case of a local authority in England,”.

(3) Yn is-adran (3)—
(a) ar ôl “issued” mewnosoder “(in the case of a local authority in England)”;

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) ar ôl “Secretary of State” mewnosoder “or (in the case of a local authority in Wales) by the Welsh Ministers”.

(4) Yn is-adran (6)(a)—

(a) ar ôl “2007” ychwanegwch “or section 56 of the Local Government (Wales) Measure 2011”;

(b) gadewch allan “in England”.

(5) Yn is-adran (10), ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”.

(6) Ar ôl is-adran (11) mewnosoder—

“(12) In this section “local government matter”, in relation to a member of a local authority in Wales, means a matter which is not an excluded matter and which—

(a) relates to the discharge of any function of the authority, or

(b) affects all or part of the electoral area for which the member is elected or any person who lives or works in that area.

(13) In subsection (12) “excluded matter” means any matter which is—

(a) a local crime and disorder matter within the meaning of section 19 of the Police and Justice Act 2006 (local authority scrutiny of crime and disorder matters), or

(b) a matter of any description specified in an order made by the Welsh Ministers for the purposes of this section.”.

*Dyletswydd i ymateb i bwyllgor trosolwg a chraffu*

**64 Dyletswydd i ymateb i bwyllgor trosolwg a chraffu**

Yn adran 21B o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (dyletswydd awdurdod neu weithrediaeth i ymateb i bwyllgor trosolwg a chraffu), yn is-adran (1) hepgorer “in England”.

*Darpariaeth ganlyniadol i adrannau 63 a 64*

**65 Darpariaeth ganlyniadol i adrannau 63 a 64**

(1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 21D (cyhoeddi etc adroddiadau, argymhellion ac ymatebion: gwybodaeth gyfrinachol ac esempt), yn is-adran (6) yn y diffiniad o “exempt information”, ar ôl “2006” mewnosoder “or section 186 of the National Health Service (Wales) Act 2006”.

(3) Yn adran 22 (mynediad i wybodaeth etc), yn is-adran (12A)—

(a) ar ôl “State” ychwanegwch “(in relation to local authorities in England), or the Welsh Ministers (in relation to local authorities in Wales),”;

(b) ym mharagraff (a), gadewch allan “in England”.

*Penodi personau i gadeirio pwyllgorau*

**66 Y ddarpariaeth mewn rheolau sefydlog ynghylch penodi personau i gadeirio pwyllgorau**

(1) Rhaid i reolau sefydlog awdurdod lleol wneud darpariaeth (“darpariaeth benodi”) ar gyfer penodi personau sydd i gadeirio pwyllgor neu bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod lleol (“cadeiryddion pwyllgorau”).

(2) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi gydymffurfio—

(a) ag adran 67,

(b) ag adran 68, ac

(c) ag adran 69 (ac yn unol â hynny ag adrannau 70 i 73 neu ag adran 74).

(3) Rhaid i ddarpariaeth benodi beidio â rhwystro person rhag cael ei benodi'n gadeirydd pwyllgor oherwydd bod y person—

(a) yn aelod, neu ddim yn aelod, o unrhyw grŵp gwleidyddol, neu

(b) yn aelod, neu ddim yn aelod, o grŵp gwleidyddol penodol.

**67 Yr adegau pan fo penodiadau i'w gwneud gan bwyllgor**

(1) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu ar gyfer penodi cadeiryddion pwyllgorau yn achosion A i C a nodir yn yr adran hon.

(2) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu bod cadeirydd y pwyllgor, neu bob cadeirydd pwyllgor, yn yr achosion hynny, i'w benodi gan y pwyllgor y mae'r person hwnnw i'w gadeirio.

(3) Achos pan nad oes grwpiau gwleidyddol ar yr awdurdod yw achos A .

(4) Achos pan nad oes ond un grŵp gwleidyddol ar yr awdurdod yw achos B.

(5) Pan ddigwydd y canlynol ceir achos C—

(a) mae dau grŵp gwleidyddol (ond dim mwy) ar yr awdurdod,

(b) nid oes gan yr awdurdod ond un pwyllgor trosolwg a chraffu, ac

(c) o ran gweithrediaeth yr awdurdod—

(i) mae'n cynnwys aelodau o'r ddau grŵp gwleidyddol, neu

(ii) nid yw'n cynnwys unrhyw aelod o'r naill grŵp gwleidyddol na'r llall.

**68 Yr adegau pan fo penodiadau i'w gwneud gan grŵp nad yw'n grŵp gweithrediaeth**

(1) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu ar gyfer penodi cadeirydd y pwyllgor yn yr achos a nodir yn yr adran hon.

(2) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu bod cadeirydd y pwyllgor, yn yr achos hwnnw, i'w benodi gan y grŵp gwleidyddol nad yw'n grŵp gweithrediaeth.

(3) Achos fel a ganlyn yw'r achos hwnnw—

(a) mae dau grŵp gwleidyddol (ond dim mwy) ar yr awdurdod,

(b) nid oes gan yr awdurdod ond un pwyllgor trosolwg a chraffu, ac

(c) o ran gweithrediaeth yr awdurdod—

(i) mae'n cynnwys un aelod neu fwy o un grŵp gwleidyddol, ond

(ii) nid yw'n cynnwys unrhyw aelod o'r grŵp gwleidyddol arall.

(4) Yn yr adran hon ystyr "grŵp gwleidyddol nad yw'n grŵp gweithrediaeth" yw'r grŵp a nodir yn is-adran (3)(c)(ii).

### 69 Sut y mae penodiadau i'w gwneud mewn achosion eraill

(1) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu ar gyfer penodi cadeiryddion pwyllgor mewn achosion ac eithrio'r rhai a nodir yn adran 67 a 68.

(2) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi sy'n gymwys mewn achosion eraill gydymffurfio—
- (a) ag adran 70 i 73, neu
- (b) ag adran 74.

### 70 Y penodiadau sydd i'w gwneud gan grwpiau gwleidyddol

(1) Mae darpariaeth benodi awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r adran hon os yw'n darparu—
- (a) ei bod yn ofynnol i'r awdurdod, bob tro y bydd yn amser penodi holl gadeiryddion ei bwyllgorau, i wneud penderfyniad o dan is-adran (2) ar ba grwpiau gwleidyddol ar yr awdurdod sydd â hawl i wneud pa benodiadau, a
- (b) i'r grwpiau allu wneud y penodiadau yn unol â hynny.

(2) Penderfyniad sydd, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yn rhoi effaith i'r egwyddorion a ganlyn yw'r penderfyniad y cyfeirir ato yn is-adran (1).

(3) Yr egwyddor gyntaf yw—
- (a) os nad oes ond un grŵp gweithrediaeth, mae cyfran y cadeiryddion pwyllgor y mae gan y grŵp gweithrediaeth hawl i'w penodi yn cyfateb i gyfran yr aelodau o'r awdurdod sydd yn y grŵp;
- (b) os oes dau neu ragor o grwpiau gweithrediaeth, mae cyfran y cadeiryddion pwyllgor y mae gan y grwpiau gweithrediaeth (o'u cymryd gyda'i gilydd) hawl i'w penodi, yn cyfateb i gyfran yr aelodau o'r awdurdod sy'n aelodau o'r grwpiau hynny (o'u cymryd gyda'i gilydd).

(4) Yr ail egwyddor yw—
- (a) os nad oes ond un grŵp gwrthblaid, mae gan y grŵp hawl i benodi holl ddyraniad yr wrthblaid o gadeiryddion pwyllgor, neu
- (b) os oes dau neu ragor o grwpiau gwrthblaid—
  - (i) mae gan y grwpiau gwrthblaid (o'u cymryd gyda'i gilydd) hawl i benodi holl ddyraniad yr wrthblaid o gadeiryddion pwyllgor, a
  - (ii) mae cyfran dyraniad yr wrthblaid o gadeiryddion pwyllgor y mae gan bob grŵp gwrthblaid ("grŵp perthnasol") hawl i'w penodi yn cyfateb i gyfran aelodau'r grŵp gwrthblaid sy'n aelodau o'r grŵp perthnasol.

(5) Wrth roi effaith i'r egwyddorion yn is-adrannau (3)(a) a (b) a (4)(b)(ii), rhaid i'r ddarpariaeth benodi—
- (a) darparu bod hawl grŵp gwleidyddol i benodi cadeiryddion pwyllgor yn hawl i benodi nifer cyfan o gadeiryddion pwyllgor, a
- (b) yn unol â hynny, ddarparu i'r hawl gael ei thalgrynnu i'r nifer cyfan agosaf os na fyddai fel arall yn nifer cyfan.

(6) Wrth roi effaith i'r egwyddorion yn is-adran (3)(a) a (b), rhaid i'r ddarpariaeth benodi a wneir yn unol ag is-adran (5)(b) ddarparu i hawl y grŵp gweithrediaeth, neu'r grwpiau gweithrediaeth, gael ei thalgrynnu i lawr i'r nifer cyfan agosaf.

(7) At ddibenion is-adrannau (5) a (6), rhaid ystyried sero yn nifer cyfan.

(8) Yn yr adran hon—

ystyr "dyraniad y weithrediaeth o gadeiryddion pwyllgor" ("*executive allocation of committee chairs*") yw nifer y cadeiryddion pwyllgor—

(a) y mae gan y grŵp gweithrediaeth hawl i'w penodi yn unol ag is-adran (3)(a), neu

(b) y mae gan y grwpiau gweithrediaeth hawl i'w penodi yn unol ag is-adran (3)(b);

ystyr "dyraniad yr wrthblaid o gadeiryddion pwyllgor" ("*opposition allocation of committee chairs*") yw nifer y cadeiryddion pwyllgor sydd yn weddill ar ôl tynnu dyraniad y weithrediaeth o gadeiryddion pwyllgor.

## 71 Methu â gwneud penodiadau yn unol ag adran 70

(1) Mae darpariaeth benodi awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r adran hon os yw'n darparu—

(a) ei bod yn ofynnol i'r awdurdod, bob tro y bydd yn amser penodi rhai cadeiryddion pwyllgor neu'r holl gadeiryddion pwyllgor ("y cadeiryddion heb eu penodi") sydd i'w penodi yn unol â darpariaeth benodi sy'n cydymffurfio ag adran 70 ond nad ydynt wedi cael eu penodi felly, wneud penderfyniad o dan is-adran (2) o sut y mae'r cadeiryddion heb eu penodi i gael eu penodi, a

(b) i'r cadeiryddion heb eu penodi gael eu penodi yn unol â hynny.

(2) Penderfyniad sydd, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yn rhoi effaith i'r egwyddorion a ganlyn yw'r penderfyniad y cyfeirir ato yn is-adran (1).

(3) Yr egwyddor gyntaf yw nad oes hawl gan unrhyw grŵp gweithrediaeth i benodi unrhyw un o'r cadeiryddion heb eu penodi.

(4) Yr ail egwyddor yw—

(a) os nad oes ond un grŵp gwrthblaid, a bod y grŵp hwnnw wedi gwneud ei holl benodiadau cychwynnol, neu

(b) os oes dau neu ragor o grwpiau gwrthblaid, a bod un neu ragor ohonynt wedi gwneud ei holl benodiadau cychwynnol,

mae gan bob grŵp penodi hawl i benodi'r gyfran o gadeiryddion pwyllgor heb eu penodi sy'n cyfateb i gyfran y penodiadau cychwynnol gorffenedig a oedd yn benodiadau a wnaed gan y grŵp hwnnw.

(5) Y drydedd egwyddor yw—

(a) os oes cadeiryddion pwyllgor heb eu penodi, ond

(b) nid oes un ohonynt i gael eu penodi fel y crybwyllir yn is-adran (4),

mae pob cadeirydd pwyllgor heb ei benodi i'w benodi gan y pwyllgor y mae'r person hwnnw i'w gadeirio.

(6) Y bedwaredd egwyddor yw—

(a) os oes un neu ragor o gadeiryddion pwyllgor heb eu penodi i'w penodi fel y crybwyllir yn is-adran (4), ond

(b) mae un neu ragor ohonynt heb eu penodi felly,

mae pob cadeirydd pwyllgor nas penodir felly i'w benodi gan y pwyllgor y mae'r person hwnnw i'w gadeirio.

(7) Yn yr adran hon—

ystyr "grŵp penodi" ("*appointing group*") yw grŵp gwrthblaid sy'n gwneud ei holl benodiadau cychwynnol;

ystyr "penodiad cychwynnol" ("*initial appointment*"), mewn perthynas â grŵp gwleidyddol, yw penodiad y mae gan y grŵp hawl i'w wneud yn unol â'r ddarpariaeth benodi sy'n cydymffurfio ag adran 70;

ystyr "penodiad cychwynnol gorffenedig" ("*completed initial appointment*") yw penodiad cychwynnol a wnaed.

## 72 Newidiadau yng nghyfansoddiad gweithrediaeth

(1) Mae darpariaeth benodi awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r adran hon os yw'n darparu ar gyfer yr achos a geir yn is-adran (2) drwy gyfrwng darpariaeth o'r math y cyfeirir ato yn is-adrannau (3) a (4).

(2) Yr achos hwnnw yw pan fo'r naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o'r pethau a ganlyn yn digwydd—

(a) mae grŵp gwleidyddol yn peidio â bod yn grŵp gweithrediaeth;

(b) mae grŵp gwleidyddol yn dechrau bod yn grŵp gweithrediaeth;

ac nid yr achos a geir yn adran 70 ydyw.

(3) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu ar gyfer gwneud—

(a) penderfyniad adran 70 (fel pe byddai wedi dod yn amser penodi holl gadeiryddion pwyllgorau'r awdurdod lleol), a

(b) penderfyniad ynghylch a oes gwahaniaeth rhwng—

(i) nifer y cadeiryddion pwyllgor y byddai gan grŵp gwleidyddol hawl i'w penodi'n unol â phenderfyniad adran 70, a

(ii) nifer y cadeiryddion pwyllgor sy'n dal swyddi ar yr adeg honno ac a benodwyd gan y grŵp hwnnw.

(4) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu bod unrhyw wahaniaeth o'r math y cyfeirir ato yn is-adran (3)(b) yn cael ei ddileu gan y naill neu'r llall o'r canlynol neu gan y naill a'r llall o'r canlynol—

(a) terfynu penodiadau presennol cadeiryddion pwyllgorau;

(b) penodi cadeiryddion newydd ar gyfer pwyllgorau.

(5) At ddibenion yr adran hon, ystyrir bod grŵp gwleidyddol yn peidio â bod yn grŵp gweithrediaeth dim ond os, ar ôl iddo beidio â bod yn grŵp gweithrediaeth, bod cyfnod o ddau fis (gan ddechrau ar y diwrnod y mae'n peidio â bod yn grŵp gweithrediaeth) yn mynd heibio heb iddo ddod yn grŵp gweithrediaeth eto.

## 73 Swyddi gwag achlysurol ymhlith cadeiryddion pwyllgor

(1) Mae darpariaeth benodi awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r adran hon os yw'n darparu ar gyfer yr achos a geir yn is-adran (2) drwy gyfrwng darpariaeth o'r math y cyfeirir ati yn is-adrannau (3) a (4).

(2) Yr achos hwnnw yw—

(a) pan fo'n amser i benodi rhai o gadeiryddion pwyllgor yr awdurdod, ond nid yr holl gadeiryddion, a
(b) nid yr achos a geir yn adran 72 ydyw.

(3) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu ar gyfer gwneud—
(a) penderfyniad adran 70 (fel pe byddai wedi dod yn amser penodi holl gadeiryddion pwyllgorau'r awdurdod lleol), a
(b) penderfyniad ynghylch a oes gwahaniaeth rhwng—
(i) nifer y cadeiryddion pwyllgor y byddai gan grŵp gwleidyddol hawl i'w penodi'n unol â phenderfyniad adran 70, a
(ii) nifer y cadeiryddion pwyllgor sy'n dal swyddi ar yr adeg honno ac a benodwyd gan y grŵp hwnnw.

(4) Rhaid i'r ddarpariaeth benodi ddarparu bod unrhyw wahaniaeth o'r math y cyfeirir ato yn is-adran (3)(b) yn cael ei ddileu, i'r graddau y mae hynny yn bosibl, gan benodiad y cadeirydd pwyllgor neu'r cadeiryddion pwyllgor.

## 74 Yr awdurdod yn penderfynu ar ddarpariaeth benodi

(1) Mae darpariaeth benodi awdurdod lleol yn cydymffurfio â'r adran hon—
(a) os nad yw'r ddarpariaeth yn llai ffafriol nag adran 70 i grwpiau gwrthblaid, a
(b) os cymeradwyir y ddarpariaeth drwy benderfyniad a wneir gan yr awdurdod lleol ac sy'n benderfyniad y mae iddo gefnogaeth ar draws y grwpiau.

(2) Nid yw darpariaeth benodi'n llai ffafriol nag adran 70 i grwpiau gwrthblaid os yw'n darparu—
(a) bod y cyfle i'w roi i grwpiau gwrthblaid ar yr awdurdod lleol (o'u cymryd gyda'i gilydd) i benodi nifer mwy o gadeiryddion pwyllgor nag yn achos darpariaeth a wneir yn unol ag adran 70, a
(b) bod y cyfle i'w roi i bob grŵp gwrthblaid ar yr awdurdod lleol i benodi'r un nifer o leiaf o gadeiryddion pwyllgor ag a fyddai'n achos darpariaeth a wneir yn unol ag adran 70.

(3) Mae cefnogaeth ar draws y grwpiau i benderfyniad a wneir gan yr awdurdod lleol—
(a) os yw'r personau sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad yn cynnwys aelodau o bob grŵp gwleidyddol ar yr awdurdod, a
(b) os yw pob grŵp gwleidyddol ar yr awdurdod yn rhoi cefnogaeth fwyafrifol i'r penderfyniad.

(4) Mae grŵp gwleidyddol ar yr awdurdod yn rhoi cefnogaeth fwyafrifol i'r penderfyniad os yw nifer aelodau'r grŵp hwnnw sy'n pleidleisio o blaid y penderfyniad yn fwy na nifer aelodau'r grŵp hwnnw sy'n pleidleisio yn erbyn y penderfyniad.

## 75 Darpariaeth atodol a dehongli

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth—
(a) ynghylch darpariaeth benodi, a
(b) ynghylch penodi cadeiryddion pwyllgorau yn unol â darpariaeth benodi.

(2) Rhaid i awdurdod lleol, wrth iddo arfer neu benderfynu ai i arfer swyddogaeth mewn cysylltiad â darpariaeth benodi neu â phenodi cadeiryddion pwyllgorau—
(a) rhoi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru, a

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(3) Yn adrannau 66 i 74 ac yn yr adran hon—

mae i “cadeirydd pwyllgor” (“*committee chair*”) yr ystyr a roddir yn adran 66;

mae i “darpariaeth benodi” (“*appointment provision*”) yr ystyr a roddir yn adran 66;

ystyr “dyfarniad adran 70” (“*section 70 determination*”) yw dyfarniad o'r math y cyfeirir ato yn adran 70.

ystyr “grŵp gweithrediaeth” (“*executive group*”) yw grŵp gwleidyddol y mae rhai neu'r cyfan o'i aelodau yn ffurfio neu yn cael eu cynnwys yng ngweithrediaeth yr awdurdod;

ystyr “grŵp gwleidyddol” (“*political group*”), mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw grŵp o aelodau o'r awdurdod sy'n grŵp gwleidyddol at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

ystyr “grŵp gwrthblaid” (“*opposition group*”) yw grŵp gwleidyddol nad oes yr un o'i aelodau yn cael ei gynnwys yng ngweithrediaeth yr awdurdod.

(4) Yn adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (pwyllgorau trosolwg a chraffu), ar ôl is-adran (10) mewnosoder—

“(10A) For provision about the appointment of persons to chair overview and scrutiny committees of local authorities in Wales, see sections 66 to 75 of the Local Government (Wales) Measure 2011.”.

*Aelodau cyfetholedig pwyllgorau trosolwg a chraffu*

## 76 Canllawiau a chyfarwyddiadau ynghylch cyfethol

(1) Rhaid i awdurdod lleol, wrth arfer swyddogaeth gyfethol neu benderfynu ai i'w harfer—

(a) rhoi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru, a

(b) cydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(2) Yn yr adran hon ystyr y term “swyddogaeth gyfethol” yw un o swyddogaethau awdurdod lleol sy'n ymwneud ag aelodau cyfetholedig—

(a) o bwyllgorau trosolwg a chraffu, neu

(b) o is-bwyllgorau i'r pwyllgorau hynny.

(3) Mae'n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddi) swyddogaeth sy'n ymwneud â' phenodi'r aelodau cyfetholedig hynny.

*Darparu gwybodaeth*

## 77 Blaen-gynlluniau a gwybodaeth arall

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth ragnodedig ynghylch arfer swyddogaethau'r canlynol—

(a) pwyllgor trosolwg a chraffu i awdurdod lleol, neu

(b) is-bwyllgor i'r pwyllgor hwnnw,

ar gael i aelodau o'r cyhoedd neu aelodau o'r awdurdod, neu mewn cysylltiad â hynny.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (1) yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth ragnodedig ar gael cyn arfer swyddogaethau a grybwyllir yn yr is-adran honno, a

(b) darpariaeth o ran y dull y bydd gwybodaeth ar gael ac ar ba ffurf y bydd yr wybodaeth ar gael.

*Cyfyngu ar reoli pwyllgorau gan bleidiau*

## 78 Gwahardd pleidleisio o dan gyfarwyddyd chwip plaid a datgan cyfarwyddyd chwip plaid

(1) Ni chaniateir i aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu bleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod o'r pwyllgor os rhoddwyd cyfarwyddyd chwip plaid i'r aelod, cyn y cyfarfod, mewn perthynas â'r cwestiwn ("cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid").

(2) Rhaid diystyru pleidlais a roddir yn groes i is-adran (1).

(3) Rhaid i reolau sefydlog ddarparu bod rhaid i bob aelod o'r pwyllgor, ym mhob un o gyfarfodydd pwyllgor trosolwg a chraffu i awdurdod lleol, ddatgan unrhyw gyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid sydd wedi ei roi i'r aelod mewn perthynas â'r cyfarfod.

(4) Rhaid i reolau sefydlog ei gwneud yn ofynnol i gofnodion pob cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu gofnodi pob datganiad o'r fath yn y cyfarfod am gyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid.

(5) Y person sy'n cadeirio cyfarfod o'r pwyllgor trosolwg a chraffu sydd i benderfynu a yw aelod o'r pwyllgor wedi cael cyfarwyddyd gwaharddedig chwip plaid mewn perthynas â'r cyfarfod.

(6) Os bydd mynd yn groes i'r adran hon yn effeithio'n sylweddol ar benderfynu cwestiwn gan bwyllgor trosolwg a chraffu, mae'r penderfyniad i'w drin fel pe na fo wedi ei wneud.

(7) Nid yw is-adran (6) yn effeithio ar unrhyw weithred neu anweithred gan unrhyw berson ac eithrio'r pwyllgor trosolwg a chraffu.

(8) At ddibenion is-adran (6), o ran mynd yn groes i'r adran hon ac effaith ar benderfynu cwestiwn gan bwyllgor trosolwg a chraffu—

(a) mae'n effeithio'n sylweddol os yw un aelod o'r pwyllgor neu ragor yn pleidleisio ar y cwestiwn yn groes i is-adran (1),

(b) mae'n effeithio'n sylweddol os na ddiystyrir un neu ragor o'r pleidleisiau a grybwyllir ym mharagraff (a) yn unol ag is-adran (2), ac

(c) mae'n effeithio'n sylweddol pe byddai'r penderfyniad i'r cwestiwn wedi bod yn wahanol pe byddai'r bleidlais neu'r pleidleisiau a grybwyllir ym mharagraff (b) wedi eu diystyru'n unol ag is-adran (2).

(9) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag is-bwyllgor i bwyllgor trosolwg a chraffu fel y mae'n gymwys i'r pwyllgor trosolwg a chraffu (ac yn unol â hyn mae cyfeiriadau yn yr adran hon at bwyllgor trosolwg a chraffu i'w darllen fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at is-bwyllgor o'r fath).

(10) Yn yr adran hon—

ystyr “cyfarwyddyd chwip plaid” (*“party whip”*) yw cyfarwyddyd (sut bynnag y'i mynegir)—

(a) a roddir ar ran grŵp gwleidyddol ar awdurdod lleol;

(b) a roddir i berson (P)—

(i) sy'n aelod o'r grŵp gwleidyddol, a

(ii) sy'n aelod o bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod lleol;

(c) ynghylch sut y dylai P bleidleisio ar gwestiwn y mae'n dod i ran y pwyllgor i'w benderfynu; a

(d) os na chydymffurfir ag ef gan P, a fyddai'n debygol o wneud P yn agored i gamau disgyblu gan y grŵp gwleidyddol sy'n rhoi'r cyfarwyddyd;

ystyr “grŵp gwleidyddol” (“*political group*”) yw grŵp o aelodau o awdurdod lleol sy'n grŵp gwleidyddol at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

ystyr “rheolau sefydlog” (*“standing orders”*), mewn perthynas â phwyllgor trosolwg a chraffu, yw rheolau sefydlog sy'n rheoleiddio trafodion a busnes y pwyllgor hwnnw.

*Strwythur pwyllgor trosolwg a chraffu*

## 79 Canllawiau a chyfarwyddiadau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi i awdurdod lleol—

(a) canllawiau ynghylch strwythur pwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod, neu

(b) cyfarwyddiadau ynghylch strwythur pwyllgor trosolwg a chraffu'r awdurdod.

(2) Rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(3) Rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon.

(4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at strwythur pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) gyfeiriadau ar y pethau a ganlyn—

(a) y nifer o bwyllgorau trosolwg a chraffu sydd gan yr awdurdod;

(b) y nifer o is-bwyllgorau (os oes rhai) sydd gan bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod;

(c) swyddogaethau pwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod;

(d) swyddogaethau is-bwyllgorau i bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod.

*Dehongli*

## 80 Dehongli'r Bennod hon

Yn y Bennod hon—

ystyr “aelod cyfetholedig” (*“co-opted member”*), mewn perthynas â phwyllgor trosolwg a chraffu i awdurdod lleol, neu ag is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath, yw person—

(a) sy'n aelod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor, ond

(b) nad yw'n aelod o'r awdurdod lleol;

mae i "pwyllgor trosolwg a chraffu" yr ystyr sydd i *"overview and scrutiny committee"* yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (gweler adran 21 o'r Ddeddf honno).

## PENNOD 2

## PWYLLGORAU ARCHWILIO

### 81 Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio

(1) Rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor ("pwyllgor archwilio")—

(a) i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.

(c) i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,

(d) i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(e) i arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(f) i adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

(2) Caiff awdurdod lleol roi i'w bwyllgor archwilio unrhyw swyddogaethau eraill y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn addas i'w harfer gan y cyfryw bwyllgor.

(3) Y pwyllgor archwilio sydd i benderfynu sut mae i arfer ei swyddogaethau.

### 82 Aelodaeth

(1) Mae awdurdod lleol i benodi aelodau ei bwyllgor archwilio.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau—

(a) bod dwy ran o dair o leiaf o aelodau ei bwyllgor archwilio'n aelodau o'r awdurdod;

(b) bod un aelod o leiaf o'i bwyllgor archwilio'n aelod lleyg;

(c) nad oes mwy nag un o aelodau ei bwyllgor archwilio'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod;

(d) nad yw aelod hŷn ei weithrediaeth yn aelod o'i bwyllgor archwilio.

(3) Nid yw is-adran (2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i aelodaeth pwyllgor archwilio awdurdod lleol gynnwys aelod o weithrediaeth yr awdurdod.

(4) Nid yw penodi person yn aelod o bwyllgor archwilio yn cael effaith os bydd aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2) yn syth ar ôl penodi (p'un ai yn rhinwedd y penodi ai peidio).

(5) Mewn achos pan fo un person neu ragor, ar adeg neilltuol, i'w wneud neu i'w gwneud yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor archwilio, neu i beidio â bod yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor archwilio, mae'r holl newidiadau hynny yn yr aelodaeth i'w hystyried wrth benderfynu a yw aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2).

(6) Mae gweithred gan bwyllgor archwilio'n annilys os yw aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2).

## 83 Trafodion etc

(1) Mae pwyllgor archwilio i benodi'r person sydd i gadeirio'r pwyllgor (a gaiff fod yn aelod o'r awdurdod neu'n aelod lleyg ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o grŵp gweithrediaeth).

(2) Os nad oes unrhyw grwpiau gwrthblaid, caiff y person sydd i gadeirio'r pwyllgor archwilio fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol.

(3) Caiff holl aelodau pwyllgor archwilio bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae'n dod i ran y pwyllgor i'w benderfynu.

(4) Caiff pwyllgor archwilio awdurdod lleol—

(a) ei gwneud yn ofynnol i aelodau a swyddogion yr awdurdod ddod ger ei fron i ateb cwestiynau, a

(b) gwahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

(5) Mae dyletswydd ar unrhyw aelod o awdurdod lleol neu swyddog i awdurdod lleol i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (4)(a).

(6) Nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn orfodol i berson ateb unrhyw gwestiwn y byddai gan y person hawl i wrthod ei ateb mewn achosion llys, neu at ddibenion achosion llys, yng Nghymru a Lloegr.

(7) Mae pwyllgor archwilio i'w drin fel pe bai'n bwyllgor i brif gyngor at ddibenion Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cael mynd i gyfarfodydd a chael gweld dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol).

(8) At ddibennion is-adrannau (1) a (2), mae i'r ymadroddion "grŵp gweithrediaeth" a "grŵp gwrthblaid" yr un ystyr ag yn adran 75.

## 84 Cynnal cyfarfodydd: pa mor aml

(1) Rhaid i bwyllgor archwilio gyfarfod unwaith ym mhob blwyddyn galendr.

(2) Rhaid i bwyllgor archwilio awdurdod lleol gyfarfod hefyd—

(a) os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r pwyllgor gyfarfod, neu

(b) os yw traean o leiaf o aelodau o'r pwyllgor yn hawlio cyfarfod drwy gyfrwng un neu ragor o hysbysiad ysgrifenedig a roddir i'r person sy'n cadeirio'r pwyllgor.

(3) Mae dyletswydd ar y person sy'n cadeirio pwyllgor archwilio i sicrhau bod cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cynnal fel y mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol.

(4) Nid yw'r adran hon yn atal pwyllgor archwilio rhag cyfarfod ac eithrio fel y mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol.

## 85 Canllawiau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol—

(a) ynghylch swyddogaethau pwyllgorau archwilio ac arfer y swyddogaethau hynny, neu

(b) ynghylch aelodaeth o bwyllgorau archwilio.

(2) Rhaid i awdurdod lleol a'i bwyllgor archwilio roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1).

## 86 Terfynu aelodaeth pan fo person yn peidio â bod yn aelod o awdurdod

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson (P)—

(a) a benodir yn aelod o bwyllgor archwilio awdurdod lleol, a

(b) sy'n aelod o'r awdurdod ar adeg y penodiad hwnnw.

(2) Os yw P yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod, mae P hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor archwilio.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os bydd P—

(a) yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod oherwydd iddo ymddeol, a

(b) yn cael ei ailethol yn aelod o'r awdurdod heb fod yn hwyrach na diwrnod ei ymddeoliad.

(4) Mae is-adran (3) yn ddarostyngedig i reolau sefydlog yr awdurdod neu rai'r pwyllgor archwilio.

## 87 Dehongli etc

(1) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Bennod hon ac yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (neu mewn offeryn a wneir o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno) yr un ystyr yn y Bennod hon â'r ystyr sydd i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn y Rhan honno o'r Ddeddf honno (neu sydd i'r ymadroddion Cymraeg neu i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn yr offeryn hwnnw).

(2) Yn y Bennod hon—

ystyr "aelod hŷn awdurdod lleol" (*"senior member of a local authority"*) yw—

(a) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), yr arweinydd gweithrediaeth;

(b) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, y maer;

mae i "pwyllgor archwilio" ("*audit committee*") yr ystyr sydd iddo yn adran 81;

ystyr "aelod lleyg" (*"lay member"*) yw person nad yw'n aelod o awdurdod lleol.

(3) Wrth gymhwyso'r Bennod hon i awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen—

(a) cyfeiriad at fwrdd yr awdurdod yw cyfeiriad at weithrediaeth yr awdurdod, a

(b) cyfeiriad at gadeirydd bwrdd yr awdurdod yw cyfeiriad at aelod hŷn yr awdurdod.

## RHAN 7

CYMUNEDAU A CHYNGHORAU CYMUNED

## PENNOD 1

CYFARFODYDD CYMUNEDOL A PHLEIDLEISIO CYMUNEDOL

### 88 Cynnull cyfarfodydd cymunedol gan etholwyr llywodraeth leol

(1) Diwygir paragraff 30 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel a ganlyn—

(a) yn lle is-baragraff (1) rhodder—

"(1) Where there is a community council for a community, a community meeting may be convened at any time by the chairman of the council or by any two councillors representing the community on the council.";

(b) yn is-baragraff (2), yn lle "any community meeting" rhodder "a community meeting convened under sub-paragraph (1) above";

(c) yn is-baragraffau (3) a (4), yn lle "a community meeting" rhodder "a community meeting convened under sub-paragraph (1) above";

(d) yn is-baragraff (3), yn lle "any of the matters mentioned in section 29B(4) of this Act" rhodder "the existence of the community council or the grouping of the community with other communities";

(e) ar ddiwedd y paragraff, mewnosoder—

"(5) For the purposes of sub-paragraph (3) above, business relates to the existence of the community council or the grouping of the community with other communities if it relates to any function of a community meeting under sections 27A to 27L of this Act.".

(2) Ar ôl paragraff 30 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"30A A community meeting may also be convened at any time by not less than—

(a) 10% of the local government electors for the community, or

(b) 50 of the electors (if 10% of the electors exceeds 50 electors).".

### 89 Hysbysiad am gyfarfod cymunedol a gafodd ei gynnull gan etholwyr llywodraeth leol

Ar ôl paragraff 30A o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"30B (1) Where a group of individuals assert that they have convened a community meeting under paragraph 30A above, those individuals must ensure that a notice which complies with the following requirements of this paragraph is given—

(a) in a case where there is a community council for the community, to the community council, or

(b) in a case where there is no community council for the community, to the principal council within whose area the community lies.

(2) The notice must contain—

(a) unless sub-paragraph (5) below applies to an individual, the name and address of each of the individuals who assert that they have convened a community meeting under paragraph 30A;

(b) unless sub-paragraph (5) below applies to an individual, the signature of each of those individuals;

(c) the business which is proposed to be transacted at the meeting;

(d) the proposed time and place at which the meeting is to be held.

(3) The notice must—

(a) where it is given under sub-paragraph (1)(a) above, be in writing (but not in an electronic form);

(b) where it is given under sub-paragraph (1)(b) above, be—

(i) in writing (but not in an electronic form), or

(ii) in an electronic form which meets the technical requirements set by the principal council under paragraph 30C below.

(4) In sub-paragraph (2) above—

(a) "address" means the individual's qualifying address for the purposes of the register of local government electors maintained under section 9(1)(b) of the Representation of the People Act 1983 for the local government area (within the meaning of that Act) in which the community lies;

(b) "signature" means—

(i) where a notice is in writing, an individual's signature or, if the individual cannot give a signature, a signature given on the individual's behalf by a duly authorised individual who, in giving that signature, declares that he or she is so authorised;

(ii) where a notice is in an electronic form, an electronic signature in respect of an individual which meets the authentication requirements for such signatures set by the principal council under paragraph 30C below.

(5) This sub-paragraph applies to an individual in respect of whom an anonymous entry under section 9B of the Representation of the People Act 1983 has been made in a register of local government electors.

(6) Where sub-paragraph (5) above applies to an individual, the notice referred to in sub-paragraph (2) above—

(a) need not include the individual's name and address and, if it does not do so, must instead include the contents of the anonymous entry made in respect of the individual in the register of local government electors, and

(b) need not include a signature in respect of the individual.

(7) Where a notice is in electronic form, it is to be treated as given to a principal council when the notice is given in accordance with whatever requirements

the council has set as to the giving of such notices under paragraph 30C(2) below.”.

## 90 Y cyfleuster ar gyfer darparu hysbysiadau electronig am gynnull cyfarfodydd cymunedol

Ar ôl paragraff 30B o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

“30C (1) A principal council must provide a facility so that notices under paragraph 30B(1)(b) above may be given to the council in electronic form (“electronic notices”).

(2) The council must set and, to such extent as the council considers appropriate, publicise the following requirements for electronic notices—

(a) the authentication requirements to be met by an electronic signature included within an electronic notice; and

(b) the other technical requirements to be met by and in relation to an electronic notice.”.

## 91 Camau gweithredu ar ôl cael hysbysiad am gynnull cyfarfod cymunedol

Ar ôl paragraff 30C o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

“30D (1) Where a principal council or a community council has been given a notice under paragraph 30B above, the council must consider—

(a) whether the group of individuals to whom the notice relates is comprised of—

(i) at least 50 local government electors for the community in question, or

(ii) at least 10% of the local government electors for the community in question, and

(b) whether the notice meets the requirements of paragraph 30B above.

(2) If the council is of the opinion that—

(a) the group of individuals to whom the notice relates is comprised of electors as described in paragraph (1)(a)(i) or (ii) above, and

(b) the notice meets the requirements of paragraph 30B above,

the council must give a public notice in accordance with paragraph 30E below.

(3) If the council is not of the opinion described in paragraph (2) above, the council must take all reasonable steps to give notice to the individuals to whom the notice relates as to why the council is not of that opinion.

(4) The relevant registration officer must supply the council with any information in relation to an individual in respect of whom the notice under paragraph 30B includes an anonymous entry, by virtue of sub-paragraph (6)(a) of that paragraph, that it is necessary for the council to have in order to perform the council’s functions under this paragraph.

(5) In sub-paragraph (4) above, “relevant registration officer” means the registration officer under section 8 of the Representation of the People Act

1983 in relation to the register of local government electors maintained under section 9(1)(b) of that Act for the local government area (within the meaning of that Act) in which the community in question lies.”.

## 92 Hysbysiad cyhoeddus am gyfarfod cymunedol

Ar ôl paragraff 30D o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

“30E (1) The public notice required by paragraph 30D(2) above must be given within a period of 30 days beginning with the day on which the council became of the opinion described in that paragraph.

(2) Except in a case falling within sub-paragraph (3) below, the public notice must be given not less than seven clear days before the community meeting.

(3) Where any business proposed to be transacted at the meeting relates to the existence of the community council or the grouping of the community with other communities, the public notice must be given not less than 30 clear days before the meeting.

(4) The public notice must—

(a) specify the time and place of the intended meeting;
(b) specify the business to be transacted at the meeting;
(c) be signed by the proper officer.

(5) In specifying a time and place for the purposes of sub-paragraph (4)(a) above, the council must take into account the proposed time and place contained in the notice given to the council under paragraph 30B(2)(d) above.

(6) The business specified for the purposes of sub-paragraph (4)(b) above must be the same as that contained in the notice given to the council under paragraph 30B(2)(c) above.

(7) Public notice of a community meeting shall be given—

(a) by posting a notice of the meeting in some conspicuous place or places in the community,
(b) in such other manner, if any, as appears to the council to be desirable for giving publicity to the meeting.

(8) For the purposes of sub-paragraph (3) above, business relates to the existence of the community council or the grouping of the community with other communities if it relates to any function of a community meeting under sections 27A to 27L of this Act.”.

## 93 Galw am bleidleisio cymunedol

Yn lle is-baragraff (4) o baragraff 34 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

“(4) A poll may be demanded before the conclusion of a community meeting on any question arising at the meeting; but no poll shall be taken unless—

(a) the poll is demanded by a majority of the local government electors present at the meeting, and

(b) the electors demanding a poll constitute not less than—

(i) 10% of the local government electors for the community, or

(ii) 150 of the electors (if 10% of the electors exceeds 150 electors).".

## 94 Hysbysiad sydd i'w roi gan y swyddog canlyniadau ar ôl cymryd pleidlais o ganlyniad i gyfarfod cymunedol

Ar ôl paragraff 38 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"38A (1) This paragraph applies to a poll (other than a poll to which sub-paragraph (2) below refers) consequent on a community meeting where a majority of those voting were in favour of the question in relation to which the poll was taken.

(2) This paragraph does not apply to a poll taken on a question of a type specified in regulations made by the Welsh Ministers.

(3) The returning officer in relation to the poll must give notice in writing to the monitoring officer (within the meaning of section 5 of the Local Government and Housing Act 1989) of the relevant principal council of—

(a) the question posed by the poll, and

(b) the fact that that a majority of those voting were in favour of that question.

(4) In sub-paragraph (3) above, "relevant principal council" means the principal council in whose area lies the community of the community meeting at which the poll was demanded.

(5) The power of the Welsh Ministers to make regulations under sub-paragraph (2) above is exercisable by statutory instrument.

(6) A statutory instrument which contains regulations under sub-paragraph (2) above is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.".

## 95 Penderfyniad swyddog monitro o ran y cyngor y mae'r pleidleisio'n ymwneud â'i swyddogaethau

(1) Ar ôl paragraff 38A o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"38B (1) Within a period of 14 days beginning with the day on which notice was given under paragraph 38A(3) above, the monitoring officer must determine whether, in the officer's opinion, the question in relation to which the poll was taken corresponds to any of the descriptions in sub-paragraph (2) below.

(2) Those descriptions are—

(a) a question which relates only to the functions of the principal council,

(b) a question which relates only to the functions of a community council for the relevant community,

(c) a question which relates to the functions of the principal council and the functions of a community council for the relevant community.

(3) If the monitoring officer determines that the question in relation to which the poll was taken corresponds to the description in sub-paragraph (2)(a) above, the officer must give notice of that determination to the principal council (see section 33B of this Act for the duties of the council upon being given such notice).

(4) If the monitoring officer determines that the question in relation to which the poll was taken corresponds to the description in sub-paragraph (2)(b) above, the officer must give notice of that determination to the community council (see paragraphs 26A and 29A above for the duties arising following the giving of such a notice).

(5) If the monitoring officer determines that the question in relation to which the poll was taken corresponds to the description in sub-paragraph (2)(c) above, the officer must—

(a) to the extent that the determination concludes that the question relates to the functions of the principal council, give notice of the determination to the principal council (see section 33B of this Act for the duties of the council upon being given such notice), and

(b) to the extent that the determination concludes that the question relates to the functions of the community council, give notice of the determination to the community council (see paragraphs 26A and 29A above for the duties arising following the giving of such a notice).

(6) A notice required to be given by this paragraph must—

(a) be given in writing,

(b) be given as soon as is reasonably practicable after the date of determination, and

(c) include the monitoring officer's reasons for the determination to which the notice relates.".

(2) Ar ôl is-adran (8A) o adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (dynodi gan swyddog monitro ac adroddiadau ganddo) mewnosoder y canlynol—

"(8B) Any reference in this section to the duties of a monitoring officer imposed by this section, or to the duties of a monitoring officer under this section, shall include a reference to duties conferred on a monitoring officer by paragraph 38B of Schedule 12 to the Local Government Act 1972 (duties of monitoring officer for principal council in Wales in relation to polls consequent on community meetings).".

## 96 Ystyried canlyniad pleidleisio cymunedol gan gyngor cymuned

Ar ôl paragraff 26 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"26A (1) This paragraph applies where a community council has been given a notice under sub-paragraph (4) or (5)(b) of paragraph 38B below.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(2) The community council must ensure that the question of what action (if any) the council should take in response to the community poll, or the part of the community poll, to which the notice relates is included within the business to be transacted at a meeting of the community council held within the relevant period.

(3) If it is necessary for the chairman of the community council to exercise his power under paragraph 25(1) above to call an extraordinary meeting of a community council in order for the community council to comply with sub-paragraph (2) above, the chairman must so exercise that power.

(4) In sub-paragraph (2) "relevant period" means the period of six weeks beginning with the day following that on which the notice referred to in sub-paragraph (1) was given.".

**97 Y camau gweithredu sydd i'w cymryd yn dilyn ystyriaeth gan gyngor cymuned o ganlyniadau pleidleisio cymunedol penodol**

Ar ôl paragraff 29 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"29A (1) This paragraph applies where—

(a) a meeting of a community council has considered the question of what action (if any) the council is to take in response to a poll consequent on a community meeting,

(b) that question was included within the business to be transacted at the meeting in order to comply with paragraph 26A(2) above, and

(c) the poll was taken following a demand being made at a community meeting which was convened under paragraph 30A below.

(2) The council must take all reasonable steps to give notice to each of the individuals who convened the community meeting referred to in sub-paragraph (1) above of what action (if any) the council intends to take in response to the poll, or that part of the poll which was considered at the meeting.

(3) Notice under sub-paragraph (2) above must be given—

(a) subject to sub-paragraph (4) below, in writing by sending it to the address given in respect of an individual in the relevant convening notice, and

(b) as soon as is reasonably practicable after the meeting of the community council was held.

(4) Where an individual falling within sub-paragraph (2) above is an anonymous registrant in the register of local government electors, sub-paragraph (3)(a) above does not apply and the notice must instead be given in writing to the principal council within whose area the community in question lies.

(5) The notice under sub-paragraph (4) above must include the entry in respect of the individual which was included in the relevant convening notice.

(6) Where a principal council is given notice under sub-paragraph (4)—

(a) the council must, as soon as reasonably practicable, send the notice to the individual concerned, and

(b) for that purpose and for the purposes of paragraph 30D below, section 9B(8) of the Representation of the People Act 1983 (communications with anonymous registrants) shall have effect as if the council were an officer referred to in that section.

(7) The relevant registration officer must supply the principal council with any information that it is necessary for the council to have in order to comply with the duty under sub-paragraph (6) above.

(8) In this paragraph—

"anonymous registrant in the register of local government electors" means an individual in respect of whom the relevant convening notice included an entry referred to in paragraph 30B(6)(a) below;

"relevant convening notice" means the notice given to the council under paragraph 30B below which preceded the holding of the community meeting at which the poll in question was demanded;

"relevant registration officer" means the registration officer under section 8 of the Representation of the People Act 1983 in relation to the register of electors for the local government area (within the meaning of that Act) in which the community in question lies.".

### 98 Prif gyngor yn ystyried canlyniad pleidleisio cymunedol

Ar ôl adran 33A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"**33B Principal council's response to a community poll**

(1) This section applies where a principal council has been given a notice under paragraph 38B(3) or (5)(a) of Schedule 12 to this Act which contains a determination that a question in relation to which a poll consequent on a community meeting was taken relates to the council's functions.

(2) The council must, during the relevant period, perform one of the actions described in subsection (4).

(3) If the council chooses to perform more than one action, the council may do so during or after the relevant period.

(4) The actions referred to in subsection (2) are as follows—

(a) to exercise the council's functions in accordance with the question in relation to which the poll was taken;

(b) to include the question of what action (if any) the council should take in response to the community poll within the business to be transacted at a meeting of the principal council held within the relevant period (and for this purpose a meeting of a committee or sub-committee of the council does not count);

(c) to initiate a consultation exercise which seeks the views of such members of the public as the council considers appropriate about what

action (if any) the council should take in response to the community poll;

(d) to hold a meeting open to members of the public, at such venue as the council considers appropriate, for the purpose of seeking the views of members of the public about what action (if any) the council should take in response to the community poll;

(e) to initiate research for the purpose of assisting the council to decide what action (if any) it should take in response to the community poll;

(f) to refer the question of what action (if any) the council should take in response to the community poll to an overview and scrutiny committee with a request that the committee reports its conclusions to the council.

(5) In this section the "relevant period" means the period of two months beginning on the day following that on which the notice referred to in subsection (1) was given.".

## 99 Prif gyngor yn egluro'i ymateb i bleidleisio cymunedol

Ar ôl adran 33B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

### "33C Principal council's explanation of its response to a community poll

(1) As soon as is reasonably practicable following the end of the relevant period for the purposes of section 33B of this Act, a principal council must take all reasonable steps to give the chairman of, or person who presided at, the community meeting referred to in subsection (1) of that section a notice in writing which—

(a) describes what action the council has taken in response to the community poll to which the notice relates; and

(b) describes what further action (if any) the council intends to take.

(2) If notice cannot be given to the chairman of, or person who presided at, the community meeting—

(a) in the case of a community meeting convened under paragraph 30 of Schedule 12 to this Act, the notice must instead be given to the chairman of the community council for the community;

(b) in the case of a community meeting convened under paragraph 30A of Schedule 12 to this Act, the principal council must instead take all reasonable steps to give notice to each of the individuals who convened the community meeting.

(3) Subject to subsection (5), notice under subsection (2)(b) is to be given by sending the notice to the address given in respect of an individual in the relevant convening notice.

(4) In subsection (3), "relevant convening notice" means the notice given to the council under paragraph 30B of Schedule 12 to this Act which preceded the holding of the community meeting at which the poll in question was demanded.

(5) Where an individual is an anonymous registrant in the register of local government electors (within the meaning of paragraph 29A of Schedule 12 to this Act), the duty under subsection (3) does not apply and notice shall instead

be given, and related functions performed, in accordance with sub-paragraphs (4) to (8) of paragraph 29A of Schedule 12 to this Act.

(6) The council must publish the notice on its website for a period of at least six months, beginning with the day on which the notice was given.”.

## PENNOD 2

TREFNIADAETH CYMUNEDAU A'U CYNGHORAU

### 100 Diddymu darpariaethau presennol ynghylch sefydlu a diddymu cynghorau cymuned etc

Hepgorer adrannau 28 i 29B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

### 101 Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn i sefydlu cyngor cymuned

Ar ôl adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

“**27A Power of community meeting to apply for an order establishing a community council**

(1) This section sets out the conditions that must be met before an application may be made by a community meeting of a community which does not have a separate council for an order under section 27B establishing a separate council for the community.

(2) The first condition is that the community meeting has taken an effective decision to hold a poll on a proposal to establish a separate council for the community.

(3) For the purposes of the first condition a decision is only effective if not less than—

(a) 10% of the local government electors for the community, or

(b) 150 of the electors (if 10% of the electors exceeds 150 electors),

are present and voting at the community meeting.

(4) The second condition is that the poll is not held before the end of the period of 42 days beginning with the day on which the decision to hold the poll was taken.

(5) The third condition is that the poll is not held within two years of an earlier poll which resulted in a rejection of a proposal to establish a separate council for the community (that period of two years beginning with the day on which the earlier poll was held).

(6) The fourth condition is that a majority of those voting in the poll support the proposal to establish a separate council for the community.

(7) Paragraph 34 of Schedule 12 to this Act (voting at community meetings) shall have effect subject to the provisions of this section.”.

**Statws** This is the original version (as it was originally enacted).

## 102 Gorchmynion i sefydlu cynghorau cymuned ar wahân ar gyfer cymunedau

Ar ôl adran 27A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

### "27B Orders establishing separate community councils for communities

(1) This section applies where a community meeting of a community which does not have a separate council applies to the principal council within whose area it lies for an order establishing a separate council for the community.

(2) The principal council must consider whether it is satisfied that—

(a) the conditions in section 27A are met, and

(b) any relevant requirements of Schedule 12 have been met.

(3) If the council is so satisfied, the council must make the order applied for (but this is subject to subsections (4) to (6) below).

(4) The order shall make such provision as appears to the principal council to be necessary for the election of a community council in accordance with this Act and Part I of the Representation of the People Act 1983.

(5) No order shall be made so as to establish a separate community council for a community grouped under a common community council unless—

(a) the community is separated from the group, or

(b) the group is dissolved,

by the order, or by an order under section 27J or section 27L below.

(6) Where, in a case to which subsection (5) above applies, the group is not dissolved, the order under this section shall make such provision as appears to the principal council to be necessary for the alteration of the group's community council.".

## 103 Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn i ddiddymu ei gyngor cymuned ar wahân

Ar ôl adran 27B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

### "27C Power of community meeting to apply for an order dissolving its separate community council

(1) This section sets out the conditions that must be met before an application may be made by a community meeting of a community which has a separate council for an order under section 27D dissolving the council.

(2) The first condition is that the community meeting has taken an effective decision to hold a poll on a proposal to dissolve the council for the community.

(3) For the purposes of the first condition a decision is only effective if not less than—

(a) 30% of the local government electors for the community, or

(b) 300 of the electors (if 30% of the electors exceeds 300 electors),

are present and voting at the community meeting.

(4) The second condition is that the poll is not held before the end of the period of 42 days beginning with the day on which the decision to hold the poll was taken.

(5) The third condition is that the poll is not held within two years of an earlier poll which resulted in a rejection of a proposal to dissolve the separate council for the community (that period of two years beginning with the day on which the earlier poll was held).

(6) The fourth condition is that at least two-thirds of those voting in the poll support the proposal to dissolve the separate council for the community.

(7) Paragraph 34 of Schedule 12 to this Act (voting at community meetings) shall have effect subject to the provisions of this section.".

## 104 Gorchmynion i ddiddymu cynghorau cymuned ar wahân ar gyfer cymunedau

Ar ôl adran 27C o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"**27D Orders dissolving separate community councils for communities**

(1) This section applies where a community meeting of a community which has a separate council applies to the principal council within whose area it lies for an order dissolving the council for the community.

(2) The principal council must consider whether it is satisfied that—

(a) the conditions in section 27C are met, and

(b) any relevant requirements of Schedule 12 have been met.

(3) If the council is so satisfied, the council must make the order applied for.".

## 105 Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn grwpio ei gymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin

Ar ôl adran 27D o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"**27E Power of community meeting to apply for an order grouping its community with other communities under a common community council**

(1) This section sets out the conditions that must be met before an application may be made by a community meeting for an order under section 27F grouping the community with some neighbouring community or communities which lie in the same principal area as the community, under a common community council.

(2) The first condition is that the community meeting has taken an effective decision to hold a poll on a proposal to group the community with a neighbouring community or communities which lie in the same principal area as the community, under a common community council.

(3) For the purposes of the first condition a decision is only effective if not less than—

(a) 10% of the local government electors for the community, or

(b) 150 of the electors (if 10% of the electors exceeds 150 electors),

are present and voting at the community meeting.

(4) The second condition is that the poll is not held before the end of the period of 42 days beginning with the day on which the decision to hold the poll was taken.

(5) The third condition is that the poll is not held within two years of an earlier poll which resulted in a rejection of an identical proposal to group the community with a neighbouring community or communities (that period of two years beginning with the day on which the earlier poll was held).

(6) The fourth condition is that a majority of those voting in the poll support the proposal to group the community with a neighbouring community or communities which lie in the same principal area as the community, under a common community council.

(7) The fifth condition is that the application is made jointly with the community meeting, or meetings, for the community, or communities to be grouped under the common community council.

(8) Paragraph 34 of Schedule 12 to this Act (voting at community meetings) shall have effect subject to the provisions of this section.”.

## 106 Gorchmynion yn grwpio cymuned ynghyd â chymunedau eraill o dan gyngor cymuned cyffredin

Ar ôl adran 27E o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

**“27F Orders grouping a community with other communities under a common community council**

(1) This section applies where a community meeting of a community applies to the principal council within whose area it lies for an order grouping the community with some neighbouring community or communities which lie in the same principal area as the community, under a common community council.

(2) The principal council must consider whether it is satisfied that—

(a) the conditions in section 27E are met, and

(b) any relevant requirements of Schedule 12 have been met.

(3) If the council is so satisfied, the council must make the order applied for (but this is subject to subsections (4) to (7) below).

(4) The order shall provide for the name of the group in both an English and a Welsh form.

(5) The order shall—

(a) make such provision as appears to the principal council to be necessary for the election, in accordance with this Act and Part I of the Representation of the People Act 1983, of separate representatives on the community council for each community or for the wards of any community, and

(b) provide for the dissolution of the separate community council of any community included in the group.

(6) The order shall make such provision as appears to the principal council to be necessary for the application to the communities included in the group of all

or any of the provisions of section 79 of the Charities Act 1993 (parochial charities) and of any of the provisions of this Act with respect to the custody of community documents, so as to preserve the separate rights of each community.

(7) The order may provide for any necessary adaptations of this Act in relation to the group of communities.".

## 107 Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn ychwanegu ei gymuned at grŵp o gymunedau a chanddynt gyngor cyffredin

Ar ôl adran 27F o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

### "27G Power of community meeting to apply for an order adding its community to a group of communities with a common council

(1) This section sets out the conditions that must be met before an application may be made by a community meeting for an order under section 27H adding the community to a group of communities all of which lie in the same principal area as the community and for which there is a common community council.

(2) The first condition is that the community meeting has taken an effective decision to hold a poll on a proposal to add the community to a group of communities all of which lie in the same principal area as the community and for which there is a common community council.

(3) For the purposes of the first condition a decision is only effective if not less than—

(a) 10% of the local government electors for the community, or

(b) 150 of the electors (if 10% of the electors exceeds 150 electors),

are present and voting at the community meeting.

(4) The second condition is that a majority of those voting in the poll support the proposal to add the community to a group of communities all of which lie in the same principal area as the community and for which there is a common community council.

(5) The third condition is that a community meeting of each of the communities in the group has made an effective decision to hold a poll on a proposal to consent to the community in question becoming a member of the group.

(6) For the purposes of the third condition a decision is only effective if not less than—

(a) 10% of the local government electors for the community, or

(b) 150 of the electors (if 10% of the electors exceeds 150 electors),

are present and voting at the community meeting.

(7) The fourth condition is that a majority of those voting in a poll following an effective decision for the purposes of the third condition support the proposal to consent to the community in question becoming a member of the group.

(8) The fifth condition is that none of the above polls are held within two years of an earlier poll which resulted in a rejection of an identical proposal to add the community in question to the group of communities (that period of two years beginning with the day on which the earlier poll was held).

(9) The sixth condition is that none of the above polls are held before the end of the period of 42 days beginning with the day on which the decision to hold that poll was taken.

(10) Paragraph 34 of Schedule 12 to this Act (voting at community meetings) shall have effect subject to the provisions of this section.".

## 108 Gorchmynion yn ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau a chanddynt gyngor cyffredin

Ar ôl adran 27G o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

### "27H Orders adding a community to a group of communities with a common council

(1) This section applies where a community meeting of a community applies to the principal council within whose area it lies for an order adding the community to a group of communities all of which lie in the same principal area as the community and for which there is a common community council.

(2) The principal council must consider whether is it satisfied that—

(a) the conditions in section 27G are met, and

(b) any relevant requirements of Schedule 12 have been met.

(3) If the council is so satisfied, the council must make the order applied for (but this is subject to subsections (4) to (7) below).

(4) The order shall provide for the name of the group in both an English and a Welsh form.

(5) The order shall—

(a) make such provision as appears to the principal council to be necessary for the election, in accordance with this Act and Part I of the Representation of the People Act 1983, of separate representatives on the community council for the community that is added to the group or for the wards of that community, and

(b) provide for the dissolution of any separate community council for the community that is added to the group.

(6) The order shall make such provision as appears to the principal council to be necessary for the application to the communities included in the group of all or any of the provisions of section 79 of the Charities Act 1993 (parochial charities) and of any of the provisions of this Act with respect to the custody of community documents, so as to preserve the separate rights of each community.

(7) The order may provide for any necessary adaptations of this Act in relation to the group of communities.".

## 109 Pŵer cyngor dros grŵp o gymunedau i wneud cais am orchymyn yn diddymu'r grŵp

Ar ôl adran 27H o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

**"27I Power of council for a group of communities to apply for an order dissolving the group**

(1) This section sets out the conditions that must be met before an application may be made by a council for a group of communities to the principal council in whose area the communities lie for an order under section 27J below dissolving the group.

(2) The first condition is that a community meeting of each of the communities in the group has taken an effective decision to hold a poll on a proposal to dissolve the group.

(3) For the purposes of the first condition a decision is only effective if not less than—

(a) 30% of the local government electors for the community, or

(b) 300 of the electors (if 30% of the electors exceeds 300 electors),

are present and voting at the community meeting.

(4) The second condition is that no poll is held before the end of the period of 42 days beginning with the day on which the decision to hold the poll was taken.

(5) The third condition is that no poll is held within two years of an earlier poll which resulted in a rejection of a proposal to dissolve the group (that period of two years beginning with the day on which the earlier poll was held).

(6) The fourth condition is that at least two thirds of those voting in each poll support the proposal to dissolve the group.

(7) Paragraph 34 of Schedule 12 to this Act (voting at community meetings) shall have effect subject to the provisions of this section.".

## 110 Gorchmynion yn diddymu grŵp o gymunedau

Ar ôl adran 27I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

**"27J Orders dissolving a group of communities**

(1) This section applies where the council for a group of communities applies to the principal council within whose area the communities lie for an order dissolving the group.

(2) The principal council must consider whether is it satisfied that—

(a) the conditions in section 27I are met, and

(b) any relevant requirements of Schedule 12 have been met.

(3) If the council is so satisfied, the council must make the order applied for (but this is subject to subsection (4)).

(4) The order shall make such provision as appears to the principal council to be necessary for the election of a community council for any of the communities in the group in accordance with this Act and Part I of the Representation of the People Act 1983.".

## 111 Pŵer cyfarfod cymunedol i wneud cais am orchymyn yn gwahanu cymuned oddi wrth grŵp o gymunedau

Ar ôl adran 27J o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

### "27K Power of community meeting to apply for an order separating community from a group of communities

(1) This section sets out the conditions that must be met before an application may be made by a community meeting of a community included in a group of communities for an order under section 27L separating the community from the group.

(2) The first condition is that a community meeting of the community has taken an effective decision to hold a poll on a proposal to separate the community from its group.

(3) For the purposes of the first condition a decision is only effective if not less than—

(a) 30% of the local government electors for the community, or

(b) 300 of the electors (if 30% of the electors exceeds 300 electors),

are present and voting at the community meeting.

(4) The second condition is that the poll is not held before the end of the period of 42 days beginning with the day on which the decision to hold the poll was taken.

(5) The third condition is that the poll is not held within two years of an earlier poll which resulted in a rejection of a proposal to separate the community from its group (that period of two years beginning with the day on which the earlier poll was held).

(6) The fourth condition is that at least two-thirds of those voting in the poll support the proposal to separate the community from its group.

(7) Paragraph 34 of Schedule 12 to this Act (voting at community meetings) shall have effect subject to the provisions of this section.".

## 112 Gorchmynion yn gwahanu cymuned oddi wrth grŵp o gymunedau

Ar ôl adran 27K o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

### "27L Orders separating a community from a group of communities

(1) This section applies where a community meeting of a community included in a group of communities applies to the principal council within whose area the community lies for an order separating the community from the group.

(2) The principal council must consider whether is it satisfied that—

(a) the conditions in section 27K are met, and

(b) any relevant requirements of Schedule 12 have been met.

(3) If the council is so satisfied, the council must make the order applied for (but this is subject to subsection (4)).

(4) The order shall make such provision as appears to the principal council to be necessary for the election of a community council for the community in accordance with this Act and Part I of the Representation of the People Act 1983.".

**113 Pŵer Gweinidogion Cymru i newid trothwy pleidleisio mewn cysylltiad â threfniadaeth cynghorau cymuned**

Ar ôl adran 27L o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"**27M Power of Welsh Ministers to alter voting thresholds in connection with organisation of community councils**

(1) The Welsh Ministers may by order amend the following provisions of this Act—

(a) section 27A(3) and (6);

(b) section 27C(3) and (6);

(c) section 27E(3) and (6);

(d) section 27G(3), (4), (6) and (7);

(e) section 27I(3) and (6);

(f) section 27K(3) and (6).

(2) That power includes power to amend provision previously made by an order under subsection (1).

(3) No order may be made under subsection (1) unless the Welsh Ministers have carried out such consultation as they consider appropriate with the following—

(a) principal councils in Wales or a body representative of such councils, and

(b) community councils in Wales or a body representative of such councils.

(4) The power of the Welsh Ministers to make an order under subsection (1) is exercisable by statutory instrument.

(5) A statutory instrument which contains an order under subsection (1) may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.".

**114 Trefniadaeth cymunedau a'u cynghorau: diwygiadau canlyniadol**

(1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel a ganlyn—

(a) yn adran 30(5), yn lle "under section 28, 29 or 29A" rhodder "referred to in section 27B, 27D, 27F, 27H, 27J or 27L";

(b) yn adran 31—

(i) yn y pennawd, yn lle "27 to 29" rhodder "27A to 27L";

(ii) yn isadran (1), yn lle "28, 29 or 29A" rhodder "27B, 27D, 27F, 27H, 27J or 27L";

(c) yn adran 255(1), yn lle "28, 29 or 29A" rhodder "27B, 27D, 27F, 27H, 27J or 27L".

**Statws** This is the original version (as it was originally enacted).

### 115 Darpariaeth drosiannol

Nid yw adrannau 88(1)(d) ac (e), 100 i 112, ac adran 114 ("darpariaethau Pennod 2") yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—

(a) cais a wneir o dan adran 28, 29 neu 29A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 cyn y dyddiad y daw darpariaethau Pennod 2 i rym; a

(b) cais a wneir ar ôl y dyddiad hwnnw ond y cynhaliwyd pleidlais fel y cyfeirir ati yn adran 29B(4) cyn y dyddiad y daw darpariaethau Pennod 2 i rym.

## PENNOD 3

CYFETHOL AELODAU O GYNGHORAU CYMUNED

### 116 Gofyniad am hysbysiad cyhoeddus pan fo seddau gwag aelodau cynghorau cymuned i'w llenwi drwy gyfethol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r swyddogaethau a ganlyn—

(a) pŵer aelodau cyngor cymuned o dan adran 21(2)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 i gyfethol person i lenwi sedd wag yn aelodaeth y cyngor (y pŵer i gyfethol os nad oes digon o enwebiadau i lenwi seddau gwag y cynhelir etholiad mewn cysylltiad â hwy);

(b) unrhyw un neu ragor o bwerau neu ddyletswyddau cyngor cymuned o dan reolau a wnaed o dan adran 36(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i gyfethol person i lenwi sedd wag achlysurol yn aelodaeth y cyngor.

(2) Rhaid peidio ag arfer swyddogaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi onid oes hysbysiad cyhoeddus wedi ei roi am y sedd wag neu'r seddau gwag o dan sylw.

(3) Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus gael ei roi—

(a) yn achos y pŵer i gyfethol y cyfeirir ato yn isadran (1)(a), gan unrhyw un o aelodau'r cyngor cymuned a awdurdodwyd at y diben hwnnw gan fwyafrif o'r aelodau eraill;

(b) yn achos y pŵer neu'r ddyletswydd i gyfethol y cyfeirir atynt yn is-adran (1)(b), gan y cyngor cymuned.

(4) Mae adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (hysbysiadau cyhoeddus) yn gymwys ar gyfer rhoi hysbysiad cyhoeddus gan aelod o gyngor cymuned o dan is-adran (3)(a) fel y mae'n gymwys i roi hysbysiad cyhoeddus gan gyngor cymuned o dan is-adran (3)(b).

(5) Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus gynnwys—

(a) manylion cyswllt unigolyn y gellir cael gwybodaeth bellach ganddo am y sedd wag neu'r seddau gwag o dan sylw, ac am y broses o ddethol person ar gyfer ei gyfethol;

(b) unrhyw wybodaeth arall—

(i) yn achos hysbysiad o dan isadran (3)(a), y mae aelodau'r cyngor cymuned o'r farn ei bod yn briodol, a

(ii) yn achos hysbysiad o dan isadran (3)(b), y mae'r cyngor cymuned o'r farn ei bod yn briodol, ac

(c) unrhyw wybodaeth arall y mae'n ofynnol ei chynnwys yn yr hysbysiad gan unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

## 117 Canllawiau ynghylch rhoi hysbysiad cyhoeddus am gyfethol

(1) Wrth iddynt arfer swyddogaethau o dan is-adrannau (2) i (5) o adran 116, rhaid i aelodau cyngor cymuned a chyngor cymuned roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r cyfeiriad at swyddogaethau yn is-adran (1) yn cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau o dan adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewn perthynas â hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 116(2).

# PENNOD 4

PENODI CYNRYCHIOLWYR IEUENCTID CYMUNEDOL

## 118 Penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol gan gynghorau cymuned

(1) Caiff cyngor cymuned benodi dim mwy na dau unigolyn i weithredu ar unrhyw un adeg fel cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol (ond mae hyn yn ddarostyngedig i adran 119).

(2) At ddibenion is-adran (1) unigolyn yw “cynrychiolydd ieuenctid cymunedol”—

(a) sydd dros 15 oed ond heb gyrraedd 26 oed, a

(b) y mae'r cyngor cymuned o'r farn ei fod yn addas i weithredu fel cynrychiolydd cymunedol, sydd i gynrychioli buddiannau'r unigolion hynny sy'n byw, yn gweithio neu'n cael addysg neu hyfforddiant yn ardal y gymuned ac sydd heb gyrraedd 26 oed.

(3) Mae cynrychiolydd ieuenctid i ddal swydd a'i gadael yn unol â thelerau penodi'r cynrychiolydd.

(4) Ond bydd penodiad cynrychiolydd ieuenctid yn dod i ben os bydd y cynrychiolydd yn cyrraedd 26 oed.

## 119 Gofynion hysbysu mewn cysylltiad â phenodi cynrychiolydd ieuenctid

(1) Ni chaniateir i gyngor cymuned benodi unigolyn yn gynrychiolydd ieuenctid cymunedol o dan adran 118 onid yw'r cyngor wedi cydymffurfio â gofynion yr adran hon.

(2) Rhaid i'r cyngor roi hysbysiad cyhoeddus am ei fwriad i benodi cynrychiolydd ieuenctid cymunedol.

(3) Pan fydd adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gymwys ar gyfer rhoi hysbysiad o dan yr adran hon bydd yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a geir yn is-adrannau (4) a (5).

(4) Yr addasiad cyntaf yw bod yr is-baragraffau canlynol yn cael eu rhoi yn lle is-adran (1)(b) o adran 232—

“(b) by giving the notice to the head teacher and proprietor of any school any part of whose premises is situated within the area of the community or communities for which the community council is established;

(c) by giving the notice to the principal and governing body of any institution within the further or higher education sector any part of whose premises is situated within the area of the community or communities for which the community council is established; and

(d) in such other manner, if any, as appears to the community council to be desirable for ensuring that as many individuals as possible who may be eligible for appointment as community youth representatives are aware that the council intends to appoint such a representative.".

(5) Yr ail addasiad yw bod yr is-adrannau canlynol yn cael eu mewnosod ar ddiwedd adran 232—

"(3) Where a term used in paragraph (b) or (c) of subsection (1) is defined by the Education Act 1996, that definition shall apply for the purposes of those paragraphs.

(4) The reference in subsection (1)(c) to the principal or governing body of an institution includes a reference to a person with functions that are similar to those of a principal or governing body.".

(6) Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus gynnwys—

(a) manylion cyswllt unigolyn y gellir cael gwybodaeth bellach ganddo am y penodiad ac am y broses o ddethol person ar gyfer ei benodi;

(b) unrhyw wybodaeth arall y mae'r cyngor cymuned o'r farn ei bod yn briodol; ac

(c) unrhyw wybodaeth arall y mae'n ofynnol ei chynnwys yn yr hysbysiad gan unrhyw reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

**120 Canllawiau ynghylch penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol**

(1) Wrth iddynt arfer swyddogaethau o dan adrannau 118 a 119, rhaid i gyngor cymuned roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r cyfeiriad at swyddogaethau yn is-adran (1) yn cynnwys cyfeiriad at swyddogaethau o dan adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y mae'n gymwys mewn perthynas â hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 119(2) o'r Mesur hwn.

**121 Effaith penodiad yn gynrychiolydd ieuenctid cymunedol**

Nid yw cynrychiolydd ieuenctid cymunedol yn aelod o'r cyngor cymuned a benododd y cynrychiolydd, ond caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu fod cynrychiolydd ieuenctid cymunedol i'w drin at ddibenion rhagnodedig yn aelod o'r cyngor a benododd y cynrychiolydd.

## PENNOD 5

## CADW ARDALOEDD CYMUNEDOL A THREFNIADAU ETHOLIADOL O DAN ADOLYGIAD

**122 Adroddiadau am gyflawni swyddogaeth prif gyngor o gadw ardaloedd cymunedol o dan adolygiad**

Ar ôl adran 55(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"(2A) Each Welsh principal council must, every fifteen years, publish a report which describes what the council has done in the previous fifteen years in order to discharge its duty to keep the whole of their area under review for the purpose described in subsection (2).

(2B) The council must send a copy of any report published under subsection (2A) to the Welsh Commission.

(2C) The first report under subsection (2A) must be published within four years of the day on which that subsection comes into force.

(2D) Further reports must be published within fifteen years of the date on which the last report under subsection (2A) was published.".

### 123 Adroddiadau am gyflawni swyddogaeth prif gyngor o gadw trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau o dan adolygiad

Ar ôl adran 57(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"(4A) Each Welsh principal council must, every fifteen years, publish a report which describes what the council has done in the previous fifteen years in order to discharge its duty to keep the whole of the area under review for the purpose described in subsection (4).

(4B) The council must send a copy of any report published under subsection (4A) to the Welsh Commission.

(4C) The first report under subsection (4A) must be published within four years of the day on which that subsection comes into force.

(4D) Further reports must be published within fifteen years of the date on which the last report under subsection (4A) was published.".

### 124 Arfer swyddogaethau gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ar ran prif gynghorau

Ar ôl adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

**"57A Exercise of functions by the Welsh Commission on behalf of principal councils**

(1) Arrangements may be made between the Welsh Commission and a principal council in Wales under which the Commission exercises, to whatever extent and subject to whatever terms the parties may agree, all or any of the functions of the principal council referred to in subsection (2).

(2) The functions are—

(a) the principal council's function of keeping under review the whole of their area for the purpose specified in section 55(2) or the purpose specified in section 57(4);

(b) the principal council's function of considering requests specified in section 55(2) or section 57(4).".

**125 Y symiau sy'n daladwy mewn cysylltiad ag arolygiadau a gynhaliwyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru**

Ar ôl adran 56(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewnosoder y canlynol—

"(4A) A direction given to the Welsh Commission under subsection (4) may require the principal council to pay to the Commission such sum as is specified, or calculated according to a formula contained, in the direction.

(4B) Any dispute as to the sum payable under the direction is to be determined by the Welsh Ministers.

(4C) Any sum payable under a direction under subsection (4) is to be recoverable as a debt due to the Welsh Commission.".

## PENNOD 6

## PWERAU CYNGHORAU CYMUNED I HYBU LLESIANT

**126 Pwerau cynghorau cymuned i hybu llesiant**

(1) Yn adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (ystyr "local authority" yn Rhan 1 o'r Ddeddf honno), ar ddiwedd is-adran (1)(b) mewnosoder "or a community council".

(2) Yn adran 2 o'r Ddeddf honno (hybu llesiant), mewnosoder y canlynol ar ôl is-adran (3B)—

"(3C) The community strategy for the area of a community council is the strategy referred to in subsection (3B) that is published by the county council or county borough council in whose area lies the community or communities for which the community council is established.".

(3) Yn adran 5 o'r Ddeddf honno (y pŵer i ddiwygio neu ddiddymu deddfiadau), mewnosoder y canlynol ar ôl is-adran (6)—

"(7) The reference to local authorities in subsection (1) does not include community councils.".

**127 Addasiadau i ddeddfiadau sy'n atal neu'n rhwystro cyngor cymuned rhag arfer ei bwerau llesiant**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad os ydynt o'r farn bod y deddfiad yn atal neu'n rhwystro'r cynghorau cymuned rhag arfer eu pwerau o dan adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (hybu llesiant).

(2) Caniateir arfer y pŵer o dan is-adran (1)—

(a) mewn perthynas â phob cyngor cymuned,

(b) mewn perthynas â chynghorau cymuned neilltuol, neu

(c) mewn perthynas â disgrifiadau neilltuol o gyngor cymuned.

(3) Mae'r pŵer o dan is-adran (1) yn cynnwys pŵer i wneud addasiadau i ddeddfiad am gyfnod neilltuol.

### 128 Darpariaeth drosiannol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gyngor cymuned hyd oni fydd yr awdurdod lleol y lleolir y cyngor cymuned yn ei ardal wedi cyhoeddi strategaeth gymunedol o dan adran 39(4) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

(2) Pan fo'r adran hon yn gymwys i gyngor cymuned, mae'r cyfeiriad yn adran 2(3C) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 at y strategaeth gymunedol ar gyfer ardal y cyngor cymuned i'w ddarllen fel cyfeiriad at strategaeth gymunedol y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol o dan adran 4 o'r Ddeddf honno.

## PENNOD 7

## GRANTIAU I GYNGHORAU CYMUNED

### 129 Pŵer Gweinidogion Cymru i dalu grantiau i gynghorau cymuned

(1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu grant i gyngor cymuned tuag at wariant a dynnir ganddo neu sydd i'w dynnu ganddo.

(2) Mae swm grant o dan yr adran hon a'r dull o'i dalu i fod yn swm ac yn ddull a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caniateir talu grant o dan yr adran hon o dan yr amodau hynny a benderfynir gan y person sy'n ei dalu.

(4) Caiff amodau o dan is-adran (3) gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) darpariaeth o ran defnyddio'r grant;

(b) darpariaeth o ran yr amgylchiadau y mae'n rhaid ad-dalu oddi tanynt y grant cyfan neu ran ohono.

## PENNOD 8

## CYTUNDEBAU SIARTER ENGHREIFFTIOL RHWNG AWDURDODAU LLEOL A CHYNGHORAU CYMUNED

### 130 Y pŵer i osod cytundeb siarter enghreifftiol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud darpariaeth yn gosod cytundeb siarter enghreifftiol rhwng awdurdod lleol a chyngor cymuned ar gyfer cymuned neu gymunedau yn ei ardal.

(2) Yn is-adran (1), ystyr "cytundeb siarter enghreifftiol rhwng awdurdod lleol a chyngor cymuned" yw disgrifiad o'r ffordd y gellir arfer eu swyddogaethau at ddibenion cynnal a gwella cydweithrediad rhyngddynt.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy orchymyn o dan is-adran (1) yn cynnwys darpariaeth (ond heb fod yn gyfyngedig iddi)—

(a) sy'n nodi'r ffordd y mae swyddogaethau penodedig, neu agweddau ar swyddogaethau o'r fath, i'w harfer;

(b) sy'n nodi swyddogaethau penodedig, neu agweddau ar swyddogaethau o'r fath, y mae'r awdurdod lleol a'r cyngor cymuned i geisio cytundeb mewn cysylltiad â hwy o ran sut y maent i'w harfer;

(c) sy'n nodi swyddogaethau penodedig sydd i'w harfer drwy gyfeirio at egwyddorion penodedig.

(4) Yn yr adran hon ac yn adran 131, mae cyfeiriad at arfer swyddogaethau yn cynnwys cyfeiriad at wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer swyddogaethau, neu sy'n gydnaws neu'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau.

## 131 Cyfarwyddiadau sy'n gwneud mabwysiadu cytundeb siarter enghreifftiol yn ofynnol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy gyfarwyddyd, ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol a chyngor cymuned ar gyfer cymuned neu gymunedau yn ardal yr awdurdod fabwysiadu cytundeb siarter enghreifftiol a osodir mewn gorchymyn o dan adran 130(1).

(2) Yn is-adran (1), ystyr “mabwysiadu” yw penderfynu, yn unol ag unrhyw weithdrefn a bennir yn y cyfarwyddyd, arfer swyddogaethau, neu geisio cytundeb ynghylch sut i arfer swyddogaethau, yn unol â'r canlynol—

(a) holl ddarpariaethau'r cytundeb siarter enghreifftiol, neu

(b) y darpariaethau hynny a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1)—

(a) ymwneud â'r holl gynghorau cymuned ar gyfer cymunedau yn ardal yr awdurdod lleol, neu ag unrhyw un neu ragor ohonynt, a

(b) os yw'r cyfarwyddyd yn ymwneud â mwy nag un cyngor cymuned, wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas â chynghorau gwahanol.

(4) Gellir gorfodi cyfarwyddyd o dan is-adran (1) drwy orchymyn mynnu ar gais Gweinidogion Cymru.

## 132 Canllawiau ynghylch cytundebau siarter enghreifftiol

Rhaid i awdurdod lleol a chyngor cymuned, wrth weithredu o dan gyfarwyddyd o dan adran 131(1), roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

## 133 Ymgynghori

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gwneud gorchymyn o dan adran 130(1), ymgynghori—

(a) ag unrhyw gyrff sy'n gynrychioliadol o awdurdodau lleol a chynghorau cymuned ac y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy, a

(b) ag unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 131(1), ymgynghori â'r awdurdod a'r cyngor y mae'r cyfarwyddyd yn ymwneud â hwy.

## PENNOD 9

## CYNLLUNIAU AR GYFER ACHREDU ANSAWDD MEWN LLYWODRAETH GYMUNEDOL

### 134 Cynlluniau ar gyfer achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu ar gyfer cynllun y caiff Gweinidogion Cymru roi achrediad i gyngor cymuned oddi tano neu, os yw'r rheoliadau'n gwneud hynny'n ofynnol, y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi achrediad i gyngor cymuned oddi tano—

(a) os bydd Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y meini prawf a osodwyd yn y rheoliadau wedi eu bodloni mewn perthynas â chyngor (gweler adran 135),

(b) os bydd Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod cyngor wedi gwneud cais dilys am achrediad (gweler adran 136), ac

(c) os talwyd y ffi (os oes ffi) sy'n ofynnol i Weinidogion Cymru (gweler adran 137).

(2) Cyfeirir at achrediad o dan is-adran (1) yn y Bennod hon fel achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol.

### 135 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: meini prawf

(1) Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 134(1), rhaid i'r rheoliadau osod meini prawf sydd i'w bodloni pan wneir cais am achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol.

(2) Mae'r meini prawf y caniateir eu gosod yn cynnwys meini prawf ynghylch y materion a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt)—

(a) canran aelodau'r cyngor sy'n ddeiliaid swydd yn rhinwedd cael eu hethol fel a nodir yn adran 35(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (ethol cynghorwyr cymunedol);

(b) cymwysterau swyddogion y cyngor a hyfforddiant ar eu cyfer;

(c) hyfforddiant i aelodau'r cyngor a chynrychiolwyr ieuenctid cymunedol;

(d) pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd y cyngor a'r cyhoeddusrwydd a roddir i gyfarfodydd (cyn ac ar ôl iddynt gael eu cynnal);

(e) rhoi rhan i bersonau yng ngwaith y cyngor cymuned;

(f) annog personau i wella llesiant y gymuned neu'r cymunedau y sefydlwyd y cyngor ar ei chyfer neu ar eu cyfer;

(g) adroddiadau blynyddol;

(h) cyfrifon.

### 136 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: ceisiadau

Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 134(1), rhaid i'r rheoliadau osod gofynion sydd i'w bodloni er mwyn gwneud cais dilys ar gyfer achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol.

### 137 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: ffioedd

Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 134(1), caiff y rheoliadau ragnodi ffi y mae ceisydd am achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol i'w thalu.

### 138 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: tynnu achrediad yn ôl

Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwneud rheoliadau o dan adran 134(1), rhaid i'r rheoliadau ddarparu ar gyfer—

(a) adolygu achrediadau ansawdd mewn llywodraeth gymunedol, a

(b) y sail dros dynnu achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol yn ôl a'r broses o dynnu achrediad yn ôl.

### 139 Ceisiadau am achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: dirprwyo swyddogaethau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud trefniadau gydag unrhyw berson y mae'r person hwnnw, yn unol â thelerau'r trefniadau, i arfer oddi tanynt swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan reoliadau a wneir o dan adran 134(1).

(2) Os gwneir trefniadau o'r fath, mae adran 134(1)(c) i gael effaith fel y bo unrhyw ffi sy'n ofynnol, i'w thalu i'r person y gwneir y trefniadau gydag ef.

### 140 Achredu ansawdd mewn llywodraeth gymunedol: canlyniadau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sy'n gosod unrhyw rwymedigaeth ar gyngor cymuned neu mewn cysylltiad ag ef fel y bo'r rhwymedigaeth, yn achos cyngor y mae achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol mewn grym mewn cysylltiad ag ef—

(a) yn cael ei datgymhwyso, neu

(b) yn cael ei haddasu fel ei bod yn haws cydymffurfio â hi .

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad sy'n rhoi pŵer i gyngor cymuned neu mewn cysylltiad ag ef fel, yn achos cyngor nad oes achrediad ansawdd mewn llywodraeth gymunedol mewn grym mewn cysylltiad ag ef—

(a) na chaniateir i'r pŵer gael ei arfer, neu

(b) mai dim ond os bodlonir amodau rhagnodedig y caniateir arfer y pŵer.

## RHAN 8

## AELODAU: TALIADAU A PHENSIYNAU

*Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol*

### 141 Y Panel

(1) Bydd panel o bersonau o'r enw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn parhau.

(2) Mae Atodlen 2 yn cael effaith mewn perthynas â'r Panel.

*Prif swyddogaethau'r Panel*

**142 Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau**

(1) Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012 ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol, caiff y Panel benderfynu ar y materion perthnasol—

(a) y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol wneud taliad i aelodau o'r awdurdod amdanynt;

(b) yr awdurdodir awdurdod perthnasol i wneud taliad i aelodau o'r awdurdod amdanynt.

(2) Dyma yw materion perthnasol—

(a) materion sy'n ymwneud â busnes swyddogol aelodau o awdurdodau perthnasol;

(b) cyfnodau o absenoldeb teuluol o dan Ran 2.

(3) Wedi iddo arfer y pŵer hwnnw, rhaid i'r Panel osod un o'r canlynol ar gyfer pob mater perthnasol—

(a) y swm y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod;

(b) yr uchafswm y caiff awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.

(4) Ar ôl penderfynu'r materion perthnasol y ceir awdurdodi neu ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol wneud taliadau amdanynt o dan is-adran (1) a phennu'r swm neu'r uchafswm ar gyfer pob mater o dan is-adran (3), caiff y Panel benderfynu na chaniateir talu taliadau mewn cysylltiad â mater neu faterion penodol i fwy na chyfran benodedig o'r aelodau o awdurdod.

(5) Ni chaiff y gyfran a bennir gan y Panel yn unol ag is-adran (4) fod yn fwy na hanner cant y cant oni fydd cydsyniad Gweinidogion Cymru wedi ei sicrhau.

(6) Caiff y Panel osod—

(a) y ganran uchaf neu'r gyfradd uchaf arall y bydd gan awdurdod perthnasol hawl i'w defnyddio i addasu, ar gyfer blwyddyn ariannol, y symiau a oedd ag iddynt effaith ar gyfer y materion perthnasol yn y flwyddyn ariannol flaenorol;

(b) mynegrif y bydd gan awdurdod perthnasol hawl i'w ddefnyddio i addasu, ar gyfer blwyddyn ariannol, y symiau a oedd ag iddynt effaith ar gyfer y materion perthnasol hynny yn y flwyddyn ariannol flaenorol ag y bydd y Panel yn penderfynu.

(7) Caniateir arfer y pwerau o dan is-adran (6) er mwyn—

(a) gosod cyfradd a mynegrif mewn perthynas â'r un mater;

(b) gosod cyfraddau neu fynegrifau gwahanol mewn perthynas â materion gwahanol.

(8) Wrth osod swm o dan is-adran (3), gwneud penderfyniad o dan is-adran (4) neu osod cyfradd neu fynegrif o dan is-adran (6), rhaid i'r Panel ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol gwneud hynny ar awdurdodau perthnasol.

(9) Caiff y Panel wneud penderfyniadau gwahanol o dan is-adran (1), gosod symiau gwahanol o dan is-adran (3), gwneud penderfyniadau gwahanol o dan is-adran (4)

neu osod cyfraddau neu fynegrifau gwahanol o dan is-adran (6) mewn perthynas ag awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad.

(10) At ddibenion is-adran (2) mae mater yn ymwneud â busnes swyddogol aelod o awdurdod perthnasol os yw'n fater y mae aelod yn ymgymryd ag ef—

(a) fel aelod o awdurdod perthnasol, neu

(b) fel aelod o gorff y penodir yr aelod yn aelod ohono gan yr awdurdod perthnasol neu gan grŵp o gyrff sy'n cynnwys yr awdurdod perthnasol, neu yn sgil cael ei enwebu gan yr awdurdod perthnasol neu gan grŵp o gyrff sy'n cynnwys yr awdurdod perthnasol.

## 143 Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag aelodau o awdurdodau perthnasol—

(a) nad ydynt yn aelodau cyfetholedig, a

(b) a chanddynt am y tro hawl i fod yn aelodau o gynllun pensiwn yn unol â rheoliadau o dan adran 7 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (cynlluniau pensiwn llywodraeth leol).

(2) Caiff y Panel benderfynu ar y disgrifiadau o aelodau y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn ("pensiwn perthnasol") iddynt neu mewn cysylltiad â hwy.

(3) Caiff y Panel benderfynu ar y materion perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn perthnasol mewn cysylltiad â hwy.

(4) Caiff y Panel wneud penderfyniadau gwahanol mewn perthynas ag awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad.

## 144 Awdurdodau perthnasol, aelodau etc.

(1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Rhan hon.

(2) Mae awdurdod yn "awdurdod perthnasol" os daw o fewn un o'r disgrifiadau a ganlyn—

(a) awdurdod lleol;

(b) cyngor cymuned;

(c) awdurdod Parc Cenedlaethol (a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(d) awdurdod tân ac achub Cymreig, sef awdurdod yng Nghymru a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.

(3) Mae cyfeiriad at ddisgrifiad o awdurdod perthnasol i'w ddarllen gydag is-adran (2).

(4) Mae "aelod", mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yn cynnwys—

(a) maer etholedig i'r awdurdod (o fewn ystyr 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000),

(b) aelod gweithrediaeth etholedig o'r awdurdod (o fewn ystyr adran 39(4) o'r Ddeddf honno), ac

(c) aelod cyfetholedig o'r awdurdod.

(5) Ystyr "aelod cyfetholedig", mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod (ac eithrio yn rhinwedd is-adran (4)) ond—

(a) sy'n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod neu sy'n aelod o gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod ac sy'n cynrychioli'r awdurdod ar y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor hwnnw, a

(b) a chanddo hawl i bleidleisio ar gwestiynau sydd i'w penderfynu yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

*Adroddiadau gan y Panel*

**145 Adroddiadau blynyddol**

(1) Rhaid i'r Panel gyhoeddi adroddiad ("adroddiad blynyddol") am arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol.

(2) Caiff adroddiad blynyddol osod gofynion (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ofynion i wneud taliadau) ar awdurdodau perthnasol.

**146 Yr adroddiad blynyddol cyntaf**

(1) Y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012 yw'r flwyddyn ariannol gyntaf y mae'n rhaid i'r Panel gyhoeddi adroddiad blynyddol arni o dan adran 145.

(2) Rhaid cyhoeddi'r adroddiad ar y flwyddyn ariannol honno ("yr adroddiad blynyddol cyntaf") heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2011.

(3) Rhaid i'r adroddiad blynyddol cyntaf nodi—

(a) y materion perthnasol,

(b) y symiau a osodwyd o dan adran 142(3),

(c) y gyfran a benderfynwyd o dan adran 142(4),

(d) yr aelodau o awdurdodau perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdodau perthnasol dalu pensiwn perthnasol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy, a

(e) y materion perthnasol y mae pensiwn perthnasol yn daladwy mewn cysylltiad â hwy.

(4) Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyntaf ond cyn cyhoeddi'r ail adroddiad blynyddol, caiff y Panel gyhoeddi un neu ragor o adroddiadau atodol.

(5) Caiff adroddiad atodol o dan yr adran hon amrywio'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adroddiad blynyddol cyntaf at ddibenion is-adran (3)(a), (b), (c), (d) neu (e).

(6) Wrth lunio adroddiad atodol o dan yr adran hon, rhaid i'r Panel ystyried—

(a) yr adroddiad ariannol cyntaf ac unrhyw adroddiadau atodol sy'n ymwneud ag ef, a

(b) y sylwadau a gafodd y Panel am yr adroddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a).

(7) Cyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyntaf neu adroddiad atodol o dan yr adran hon, rhaid i'r Panel—

(a) anfon drafft at

(i) Weinidogion Cymru,

(ii) yr awdurdodau perthnasol hynny y mae'r Panel wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt neu wedi eu hawdurdodi i wneud taliadau i'w haelodau mewn cysylltiad â materion perthnasol, ac

(iii) unrhyw bersonau eraill y mae'r Panel o'r farn eu bod yn briodol,

a,

(b) ystyried y sylwadau y mae'n eu cael ar y drafft.

(8) Daw darpariaethau'r adroddiad blynyddol cyntaf neu adroddiad atodol o dan yr adran hon i rym ar y dyddiad a bennir at y diben hwnnw yn yr adroddiad; ond ni chaiff yr adroddiad bennu dyddiad cynharach na diwrnod olaf y cyfnod o dri mis yn dechrau drannoeth y dyddiad cyhoeddi.

## 147 Adroddiadau blynyddol dilynol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag adroddiadau blynyddol ar ôl yr adroddiad blynyddol cyntaf.

(2) Rhaid cyhoeddi adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach nag—

(a) 31 Rhagfyr yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, neu

(b) unrhyw ddyddiad diweddarach y mae'r Panel a Gweinidogion Cymru yn cytuno arno.

(3) Rhaid i adroddiad blynyddol nodi—

(a) drwy gyfeirio at y swm sydd ag iddo effaith ar gyfer pob mater perthnasol, unrhyw gyfradd neu fynegrif fel y'i gosodir o dan adran 142(6), a

(b) y disgrifiadau o aelodau o awdurdodau perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdodau perthnasol dalu pensiwn perthnasol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy.

(4) Caiff adroddiad blynyddol amrywio'r ddarpariaeth a wneir yn yr adroddiad blynyddol cyntaf at ddibenion adran 146(3)(a), (b), (c), (d) neu (e).

(5) Ar ôl cyhoeddi adroddiad blynyddol ond cyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol nesaf, caiff y Panel gyhoeddi un neu ragor o adroddiadau atodol.

(6) Caiff adroddiad atodol o dan yr adran hon—

(a) amrywio'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adroddiad blynyddol y mae'r adroddiad atodol yn ymwneud ag ef at ddibenion is-adran (3)(a) neu (b) (a chaiff wneud darpariaeth at y dibenion hynny i'r graddau nad yw'r adroddiad blynyddol yn ei gwneud);

(b) amrywio'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adroddiad blynyddol cyntaf at ddibenion adran 146(3)(a), (b), (c), (d) neu (e) (neu'r ddarpariaeth honno fel y'i hamrywiwyd yn rhinwedd is-adran (4)).

(7) Wrth lunio adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol o dan yr adran hon, rhaid i'r Panel ystyried—

(a) yr adroddiad blynyddol blaenorol ac unrhyw adroddiadau atodol sy'n ymwneud ag ef;

(b) y sylwadau a gafodd y Panel am yr adroddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a).

(8) Cyn cyhoeddi adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol o dan yr adran hon, rhaid i'r Panel—

(a) anfon drafft at

(i) Weinidogion Cymru,

(ii) yr awdurdodau perthnasol hynny y mae'r Panel wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt neu wedi eu hawdurdodi i wneud taliadau i'w haeoldau mewn cysylltiad â materion perthnasol, ac

(iii) unrhyw bersonau eraill y mae'r Panel o'r farn ei bod yn briodol anfon drafft atynt,

a,

(b) ystyried y sylwadau y mae'r Panel yn eu cael ar y drafft.

(9) Daw darpariaethau adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol o dan yr adran hon i rym ar y dyddiad a bennir at y diben hwnnw yn yr adroddiad; ond ni chaiff unrhyw adroddiad bennu dyddiad cynharach na diwrnod olaf y cyfnod o dri mis yn dechrau drannoeth y dyddiad cyhoeddi.

## 148 Ymgynghori ar adroddiadau drafft

(1) Rhaid i'r Panel beidio â chyhoeddi adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol cyn pen y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'n anfon drafft o'r adroddiad yn unol ag adran 146 neu 147.

(2) Rhaid i'r Panel, pan fydd yn anfon drafft o adroddiad yn unol â'r naill neu'r llall o'r adrannau hynny, osod copi electronig o'r drafft ar ei wefan.

## 149 Cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Panel i ailystyried darpariaeth yn yr adroddiad drafft.

(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu—

(a) y ddarpariaeth,

(b) y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd, ac

(c) y dyddiad erbyn pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ymateb.

(3) O ran y Panel—

(a) rhaid iddo ymateb i'r cyfarwyddyd heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir at ddibenion is-adran (2)(c);

(b) ni chaiff gyhoeddi'r adroddiad cyn iddo fod wedi ymateb i'r cyfarwyddyd.

(4) Os yw'r Panel yn penderfynu peidio ag amrywio'r drafft yn unol â'r cyfarwyddyd, rhaid iddo bennu yn ei ymateb y rheswm dros ei benderfyniad.

## 150 Gofynion gweinyddol mewn adroddiadau

(1) Caiff adroddiad blynyddol osod gofynion ar awdurdodau perthnasol er mwyn osgoi—

(a) dyblygu taliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol;

(b) dyblygu'n faterion perthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes swyddogol aelodau.

(2) At ddibenion achos pan fo aelod o awdurdod perthnasol yn gwneud rhywbeth sy'n ymwneud ag awdurdod perthnasol arall (yn ogystal â'r awdurdod y mae'r aelod yn perthyn iddo), ac y mae'n rhaid gwneud taliad i'r aelod mewn cysylltiad â mater

perthnasol, rhaid i adroddiad blynyddol ddangos sut i benderfynu p'un o'r awdurdodau fydd yn gorfod gwneud y taliad.

(3) Caiff adroddiad blynyddol osod gofynion ar awdurdodau perthnasol er mwyn cadw—

(a) cofnodion o geisiadau am daliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol;

(b) cofnodion o daliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol;

(c) cofnodion o daliadau a wneir mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol.

## 151 Gofynion cyhoeddusrwydd mewn adroddiadau

(1) Caiff adroddiad blynyddol osod gofynion ar awdurdodau perthnasol ar gyfer gwneud trefniadau i gyhoeddi gwybodaeth o ddisgrifiad penodedig—

(a) ynghylch taliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol;

(b) ynghylch taliadau a wneir mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol.

(2) Caiff yr adroddiad ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu i awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad wneud trefniadau gwahanol.

## 152 Rhoi cyhoeddusrwydd i adroddiadau

(1) Os yw'r Panel yn cyhoeddi adroddiad, rhaid iddo hysbysu—

(a) unrhyw bersonau y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd yr adroddiad yn effeithio arnynt, a

(b) unrhyw ddarlledwyr ac unrhyw aelodau o'r wasg y mae o'r farn ei bod yn briodol eu hysbysu.

(2) Rhaid i'r Panel sicrhau bod ei adroddiadau ar gael mewn modd rhesymol i bersonau yn gyffredinol.

(3) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (1) a (2), caiff y Panel benderfynu sut i roi cyhoeddusrwydd i'w adroddiadau.

(4) Yn yr adran hon, mae "adroddiad" (ac eithrio mewn perthynas ag is-adran (1)(b)) yn cynnwys drafft o adroddiad; ac ystyr "cyhoeddi", mewn perthynas â drafft, yw ei anfon at y personau y mae'n ofynnol anfon drafft atynt o dan 146 neu 147.

*Taliadau gan awdurdodau perthnasol*

## 153 Cydymffurfio â gofynion y Panel

(1) Rhaid i awdurdod perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno gan adroddiad blynyddol.

(2) Caiff y Panel fonitro gwneud taliadau gan awdurdodau perthnasol mewn cysylltiad â materion perthnasol; ac wrth wneud hynny, caiff y Panel ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol roi iddo unrhyw wybodaeth y mae'n ei phennu am—

(a) y materion sy'n faterion perthnasol mewn perthynas â'r awdurdod;

(b) ceisiadau i'r awdurdod am daliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol;

(c) taliadau a wneir gan yr awdurdod mewn cysylltiad â materion perthnasol.

(3) Caiff y Panel fonitro gwneud taliadau gan awdurdodau perthnasol mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol; ac wrth wneud hynny, caiff y Panel ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol roi iddo unrhyw wybodaeth y mae'n ei phennu am—

(a) yr aelodau o'r awdurdod y mae'n ofynnol i'r awdurdod dalu pensiynau perthnasol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy;

(b) taliadau a wneir gan yr awdurdod mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol gydymffurfio â gofyniad a osodir arno o dan is-adran (2) neu (3).

## 154 Aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw aelod o awdurdod perthnasol, drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir i'r swyddog priodol i'r awdurdod, yn dewis ymwrthod (naill ai'n llwyr neu i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad) â'r hawl i gael taliadau mewn cysylltiad ag unrhyw faterion perthnasol a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Nid yw'r gofyniad a osodir ar yr awdurdod gan adroddiad blynyddol i wneud taliadau mewn cysylltiad â'r materion perthnasol hynny a bennir yn yr hysbysiad yn gymwys yn achos yr aelod hwnnw (neu nid yw'n gymwys yn yr achos hwnnw i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad); ac mae adran 153(1) i'w darllen yn unol â hynny.

(3) Mae i "swyddog priodol" yr ystyr a roddir i "*proper officer*" yn adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 155 Peidio â gwneud taliadau

(1) Ni chaniateir i awdurdod perthnasol wneud taliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol neu bensiwn perthnasol i berson sydd wedi ei atal neu wedi ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (ymddygiad aelodau llywodraeth leol etc.).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, mewn unrhyw achosion eraill y maent o'r farn eu bod yn briodol, gyfarwyddo awdurdod perthnasol i beidio â gwneud taliadau (gan gynnwys mewn cysylltiad â phensiynau) mewn cysylltiad ag unrhyw faterion perthnasol a bennir yn y cyfarwyddyd.

(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Panel.

(4) Gellir gorfodi cyfarwyddyd o dan is-adran (2) drwy orchymyn mynnu ar gais Gweinidogion Cymru.

(5) Caiff awdurdod perthnasol ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu taliadau a wnaed mewn cysylltiad â materion perthnasol neu bensiwn perthnasol i berson mewn cysylltiad â chyfnod pryd nad oedd gan y person hwnnw hawl i gael y taliad am unrhyw reswm, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw un o'r rhesymau canynol—

(a) gwnaed y taliadau yn groes i'r gwaharddiad yn is-adran (1);

(b) gwnaed y taliadau yn groes i'r gyfarwyddyd o dan is-adran (2);

(c) yr oedd y person wedi peidio â bod yn aelod o'r awdurdod.

*Gorfodi*

### 156 Cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion

(1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod awdurdod perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad sy'n ymwneud â materion perthnasol a osodir arno gan y Mesur hwn neu yn rhinwedd y Mesur hwn, cânt gyfarwyddo'r awdurdod i gydymffurfio â'r gofyniad.

(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu—

(a) y gofyniad;

(b) y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd;

(c) y camau y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod eu cymryd;

(d) y dyddiad erbyn pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gymryd y camau.

(3) Gellir gorfodi cyfarwyddyd o dan yr adran hon drwy orchymyn mynnu ar gais Gweinidogion Cymru.

*Atodol*

### 157 Canllawiau

(1) Caiff y Panel roi cyfarwyddyd am sut i gydymffurfio â gofynion a osodir gan adroddiadau blynyddol.

(2) Mae pŵer y Panel i roi canllawiau o dan is-adran (1) yn cynnwys y pŵer i amrywio neu ddirymu'r canllawiau a roddwyd.

(3) Rhaid i awdurdod perthnasol roi sylw i ganllawiau a roddir o dan is-adran (1).

### 158 Y pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel

Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud addasiadau i'r Rhan hon er mwyn—

(a) ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth am aelodaeth y Panel, deiliadaeth ei aelodau, neu ei weithdrefnau;

(b) ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaeth ar y Panel.

### 159 Dehongli Rhan 8

(1) Yn y Rhan hon—

mae i "adroddiad blynyddol" (*"annual report"*) yr ystyr a roddir yn adran 145;

mae i "aelod" ("*member*"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yr ystyr a roddir yn adran 144;

mae i "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*"), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yr ystyr a roddir yn adran 144;

mae i "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yr ystyr a roddir yn adran 144 (ac mae cyfeiriad at ddisgrifiad o awdurdod perthnasol i'w ddarllen yn unol â'r adran honno);

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

mae i "mater perthnasol" ("*relevant matter*") yr ystyr a roddir yn adran 142;

ystyr "y Panel" (*"the Panel"*) yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;

mae i "pensiwn perthnasol" (*"relevant pension"*) yr ystyr a roddir yn adran 143.

(2) Mae'r cyfeiriadau yn adrannau 153, 154 a 157 at ofynion a osodir gan adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at ofynion sy'n cael eu cynnwys mewn adroddiad blynyddol gan adroddiad atodol.

### 160 Diwygiadau canlyniadol

Mae Atodlen 3 (taliadau a phensiynau: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol) yn cael effaith.

## RHAN 9

## CYDLAFURIO A CHYFUNO

## PENNOD 1

## CYDLAFURIO

### 161 Canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig

Ar ôl adran 12 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewnosoder y canlynol—

**"12A Canllawiau ynghylch cydlafurio rhwng awdurdodau gwella Cymreig**

Wrth benderfynu p'un ai I arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 9(1) a 12 a sut I'w harfer, rhaid I awdurdod gwella Cymreig roi sylw I unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.".

## PENNOD 2

## CYFUNO

### 162 Pŵer i wneud gorchymyn cyfuno

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llywodraeth leol effeithiol, wneud gorchymyn ("gorchymyn cyfuno") i gyfansoddi ardal llywodraeth leol newydd drwy gyfuno dwy neu dair ardal llywodraeth leol.

(2) Cyn gwneud gorchymyn cyfuno, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni na fyddai'n debyg y câi llywodraeth leol effeithiol ei sicrhau mewn ardal llywodraeth leol sydd i'w chyfuno gan y gorchymyn—

(a) drwy i unrhyw rai o'r awdurdodau lleol o dan sylw arfer eu pwerau o dan adran 9 (Pwerau cydlafurio etc) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, neu

(b) drwy i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan—

(i) adran 28 (Gweinidogion Cymru: cymorth i awdurdodau gwella Cymreig),

(ii) adran 29 (Gweinidogion Cymru: pwerau cyfarwyddo etc),

(iii) adran 30 (Pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio), neu

(iv) adran 31 (Pŵer Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd)

o'r Mesur hwnnw.

(3) Rhaid i orchymyn cyfuno ddarparu ar gyfer y canlynol—

(a) a fydd yr ardal llywodraeth leol newydd yn sir ynteu'n fwrdeistref sirol,

(b) enw Cymraeg ac enw Saesneg yr ardal llywodraeth leol newydd,

(c) sefydlu awdurdod lleol ar gyfer yr ardal llywodraeth leol newydd,

(d) a fydd yr awdurdod lleol newydd yn gyngor sir ynteu'n gyngor bwrdeistref sirol,

(e) enw Cymraeg ac enw Saesneg yr awdurdod lleol newydd,

(f) diddymu'r ardaloedd llywodraeth leol presennol,

(g) ffin yr ardal llywodraeth leol newydd, ac

(h) dirwyn i ben a diddymu'r awdurdodau lleol ar gyfer yr ardaloedd llywodraeth leol presennol.

(4) Os sir fydd yr ardal llywodraeth leol newydd, rhaid i'r gorchymyn cyfuno ddarparu i'r awdurdod lleol newydd gael enw'r sir gan ychwanegu—

(a) yn achos ei enw Saesneg, y geiriau “County Council” neu'r gair “Council” (megis yn “Pembrokeshire County Council” neu “Pembrokeshire Council”); a

(b) yn achos ei enw Cymraeg, y gair “Cyngor” (megis yn “Cyngor Sir Penfro”).

(5) Os bwrdeistref sirol fydd yr ardal llywodraeth leol newydd, rhaid i'r gorchymyn cyfuno ddarparu i'r awdurdod lleol newydd gael enw'r fwrdeistref sirol gan ychwanegu—

(a) yn achos ei enw Saesneg, y geiriau “County Borough Council” neu'r gair “Council” (megis yn “Caerphilly County Borough Council” neu “Caerphilly Council”); a

(b) yn achos ei enw Cymraeg, y geiriau “Cyngor Bwrdeistref Sirol” neu'r gair “Cyngor” (megis yn “Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili” neu “Cyngor Caerffili”).

## 163 Materion etholiadol

(1) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn cyfuno yn cynnwys darpariaeth ar gyfer neu mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r materion canlynol (ond nid yw wedi ei chyfyngu i'r cyfryw ddarpariaeth)—

(a) cyfanswm yr aelodau o unrhyw awdurdod lleol (“cynghorwyr”);

(b) nifer yr ardaloedd etholiadol a'u ffiniau at ddibenion ethol cynghorwyr;
(c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yn ffurfiol gan unrhyw ardal etholiadol;
(d) enw unrhyw ardal etholiadol;
(e) ethol cynghorwyr ar gyfer unrhyw ardaloedd etholiadol;
(f) diddymu etholiadau cynghorwyr ar gyfer unrhyw ardal etholiadol;
(g) ethol cynghorwyr cymunedol ar gyfer unrhyw gymuned;
(h) diddymu etholiadau cynghorau cymuned;
(i) ethol maer awdurdod lleol;
(j) penodi aelodau o awdurdod lleol presennol gan Weinidogion Cymru i fod yn aelodau o awdurdod cysgodol am gyfnod cysgodol;
(k) penodi am gyfnod cysgodol weithrediaeth i'r awdurdod cysgodol;
(l) swyddogaethau awdurdod cysgodol, a chyflawni'r swyddogaethau hynny, yn ystod cyfnod cysgodol.

## 164 Gofyniad i gynnal refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig

(1) Pan fo un neu ragor o'r awdurdodau lleol presennol yn gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, rhaid i'r gorchymyn cyfuno ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cysgodol gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu gweithrediaeth maer a chabinet.

(2) Pan fo is-adran (1) yn gymwys, mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn cyfuno'n cynnwys darpariaeth (ond nid yw wedi ei chyfyngu i ddarpariaeth)—
(a) o ran y dyddiad, neu'r amser erbyn pryd, y mae'n rhaid cynnal refferendwm;
(b) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol o flaen refferendwm neu mewn cysylltiad ag ef;
(c) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol ar ôl refferendwm;
(d) i alluogi Gweinidogion Cymru neu mewn cysylltiad â'u galluogi, os bydd unrhyw fethiant gan yr awdurdod cysgodol i gymryd unrhyw gamau gweithredu a ganiateir neu sy'n ofynnol yn rhinwedd y gorchymyn, i gymryd y camau gweithredu hynny.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso neu'n atgynhyrchu (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddarpariaethau yn adran 25, 27, 28, 29 neu 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu Ran 4 o'r Mesur hwn.

## 165 Pŵer i gyfarwyddo refferendwm sy'n cynnwys maer etholedig

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i'w galluogi neu mewn cysylltiad â'u galluogi, o dan unrhyw amgylchiadau a ragnodir yn y rheoliadau, i gyfarwyddo awdurdod cysgodol i gynnal refferendwm ynghylch a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu gweithrediaeth maer a chabinet.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys darpariaeth (ond nid yw wedi ei chyfyngu i ddarpariaeth)—
(a) ynghylch y dyddiad, neu'r amser erbyn pryd, y mae'n rhaid cynnal refferendwm;

(b) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol o flaen refferendwm neu mewn cysylltiad ag ef;

(c) o ran y camau gweithredu y caniateir eu cymryd, neu na chaniateir eu cymryd, neu y mae'n rhaid eu cymryd gan awdurdod cysgodol ar ôl refferendwm;

(d) i alluogi Gweinidogion Cymru neu mewn cysylltiad â'u galluogi, os bydd unrhyw fethiant gan yr awdurdod cysgodol i gymryd unrhyw gamau gweithredu a ganiateir neu sy'n ofynnol yn rhinwedd y rheoliadau, i gymryd y camau gweithredu hynny.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth sy'n cymhwyso neu'n atgynhyrchu (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddarpariaethau yn adran 25, 27, 28, 29 neu 33 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu Ran 4 o'r Mesur hwn.

### 166 Darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed

(1) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud mewn gorchymyn cyfuno yn cynnwys darpariaeth atodol, cysylltiedig, trosiannol a darpariaeth arbed (ond nid yw wedi ei chyfyngu i'r cyfryw ddarpariaeth).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau sy'n gymwys yn gyffredinol wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol a darpariaeth arbed—

(a) at ddibenion gorchmynion cyfuno neu o ganlyniad iddynt; neu

(b) i roi effaith lawn i orchmynion cyfuno.

(3) Mae rheoliadau o dan is-adran (2) yn cael effaith yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir mewn gorchymyn cyfuno.

(4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriadau at ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed yn cynnwys darpariaeth (ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i ddarpariaeth)—

(a) ar gyfer trosglwyddo eiddo, hawliau neu rwymedigaethau o awdurdod lleol presennol i awdurdod lleol newydd;

(b) i achos cyfreithiol a gychwynnir gan neu yn erbyn awdurdod lleol presennol gael ei barhau gan neu yn erbyn awdurdod lleol newydd;

(c) ar gyfer trosglwyddo staff, iawndal am golli swydd, neu mewn perthynas â phensiynau a materion staffio eraill;

(d) ar gyfer trin awdurdod lleol newydd at rai dibenion neu at bob diben fel yr un person mewn cyfraith ag awdurdod lleol presennol;

(e) mewn perthynas â rheolaeth neu gadwraeth ar eiddo (tirol neu bersonol) a drosglwyddir;

(f) sy'n cyfateb i unrhyw ddarpariaeth y gellid ei chynnwys mewn cytundeb o dan adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid)

(5) Mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau y caniateir eu trosglwyddo'n unol â gorchymyn o dan yr adran hon yn cynnwys hawliau a rhwymedigaethau mewn perthynas â chontract cyflogi.

(6) Mae Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (OS 2006/246) yn gymwys i drosglwyddiad a wneir yn unol â gorchymyn o dan yr adran

hon (p'un a yw'r trosglwyddiad yn drosglwyddiad perthnasol at ddibenion y rheoliadau hynny ai peidio).

(7) Yn is-adran (1), mae'r cyfeiriad at ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed hefyd yn cynnwys darpariaeth (ond nid yw wedi ei chyfyngu i ddarpariaeth) mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) sefydlu cyrff cyhoeddus neu aelodaeth o'r cyfryw gyrff mewn unrhyw ardal yr effeithir arni gan y gorchymyn cyfuno ac ethol neu benodi aelodau'r cyfryw gyrff;

(b) diddymu neu sefydlu, neu gyfyngu neu estyn, awdurdodaeth unrhyw gorff cyhoeddus mewn neu dros unrhyw ran o unrhyw ardal yr effeithir arni gan y gorchymyn cyfuno.

(8) Caiff darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn gorchymyn cyfuno neu mewn rheoliadau o dan yr adran hon fod ar ffurf darpariaeth—

(a) sy'n addasu, sy'n eithrio neu sy'n cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad; neu

(b) sy'n diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad (gydag arbedion neu hebddynt).

## 167 Adolygu trefniadau etholiadol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo Comisiwn Cymru i ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd.

(2) Caiff Comisiwn Cymru o ganlyniad i'r cyfryw adolygiad gyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru ar gyfer gwneud newidiadau i'r trefniadau etholiadol sy'n ymddangos i Gomisiwn Cymru yn ddymunol er mwyn cael llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

(3) Wrth bwyso a mesur y trefniadau etholiadol ar gyfer ardal llywodraeth leol newydd at ddibenion yr adran hon, rhaid i Gomisiwn Cymru i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol gydymffurfio â'r rheolau a nodir yn Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

(4) At ddibenion yr adran hon mae i "trefniadau etholiadol" yr un ystyr ag "*electoral arrangements*" yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 168 Diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

(1) Diwygir Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel a ganlyn.

(2) Yn adran 58 (adroddiadau'r Comisiwn a'u gweithredu), yn is-adran (1)(b) ar ôl "section 57 above" mewnosoder "or in accordance with a direction under section 167 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(3) Yn adran 59 (cyfarwyddiadau ynghylch adolygiadau), yn is-adran (1) ar ôl "57 above" mewnosoder "or in accordance with a direction under section 167 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(4) Yn adran 60 (y weithdrefn ar gyfer adolygiadau), yn is-adran (1) ar ôl "this Act" mewnosoder "or in accordance with a direction under section 167 of the Local Government (Wales) Measure 2011".

(5) Yn adran 68 (cytundebau trosiannol o ran eiddo a chyllid), yn is-adran (1) ar ôl “this Act” mewnosoder “or by an order under section 162 of the Local Government (Wales) Measure 2011”.

## 169 Y weithdrefn sy'n gymwys i orchymyn cyfuno

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r adran hon cyn gwneud gorchymyn cyfuno i roi effaith i gynigion i gyfansoddi ardal llywodraeth leol newydd drwy gyfuno dwy neu dair o ardaloedd llywodraeth leol presennol (“y cynigion”).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) yr awdurdodau lleol ar gyfer yr ardaloedd llywodraeth leol yr effeithir arnynt gan y cynigion,

(b) y cynghhorau cymuned yn yr ardaloedd llywodraeth leol yr effeithir arnynt gan y cynigion, ac

(c) unrhyw bersonau eraill (os oes rhai) y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn debygol yr effeithir arnynt gan y cynigion.

(3) Os bydd Gweinidogion Cymru, yn dilyn yr ymgynghori hwnnw, yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynigion, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen sydd—

(a) yn esbonio'r cynigion,

(b) yn eu nodi ar ffurf gorchymyn drafft, ac

(c) yn rhoi manylion yr ymgynghori o dan is-adran (2).

(4) Ni chaniateir i unrhyw ddrafft o orchymyn cyfuno i roi effaith i'r cynigion (“y gorchymyn drafft terfynol”) gael ei osod gerbron y Cynulliad yn unol ag adran 172(2)(b) tan ar ôl i'r cyfnod o 60 niwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â'r cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3), ddirwyn i ben.

(5) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (4) rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.

(6) Wrth baratoi'r gorchymyn drafft terfynol, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (4).

(7) Os caiff y gorchymyn drafft terfynol ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 172(2)(b), rhaid bod gyda'r gorchymyn ddatganiad gan Weinidogion Cymru sy'n rhoi manylion—

(a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (6), a

(b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y mae effaith wedi ei rhoi iddynt yn y gorchymyn drafft terfynol.

(8) Nid oes dim yn yr adran hon sy'n gymwys i orchymyn o dan adran 162 sydd wedi ei wneud yn unswydd at y diben o ddiwygio gorchymyn cynharach o dan yr adran honno.

## 170 Cywiro gorchmynion

(1) Pan fo—

(a) gwall mewn gorchymyn cyfuno, a

(b) ni ellir ei gywiro drwy orchymyn dilynol a wneir o dan adran 162, caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, gywiro'r gwall.

(2) At ddibenion yr adran hon, mae "gwall" mewn gorchymyn yn cynnwys darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn y gorchymyn neu wedi ei hepgor ohono drwy ddibynnu ar wybodaeth anghywir neu anghyflawn a ddarparwyd gan gyngor cymuned neu unrhyw gorff cyhoeddus arall.

## 171 Dehongli'r Bennod hon

Yn y Pennod hon—

mae "aelod o awdurdod lleol" ("*member of a local authority*") yn cynnwys maer etholedig (o fewn ystyr adran 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000) neu aelod gweithredol etholedig (o fewn ystyr adran 39(4) o'r Ddeddf honno) o'r awdurdod;

ystyr "ardal etholiadol" ("*electoral area*") yw unrhyw ardal yr etholir cynghorwyr drosti i awdurdod lleol;

ystyr "ardal llywodraeth leol" ("*local government area*") yw ardal y mae awdurdod lleol wedi ei sefydlu ar ei chyfer;

ystyr "ardal llywodraeth leol bresennol" ("*existing local government area*") yw ardal llywodraeth leol a ddiddymir gan orchymyn cyfuno;

ystyr "ardal llywodraeth leol newydd" ("*new local government area*") yw ardal llywodraeth leol a gyfansoddwyd drwy orchymyn cyfuno;

ystyr "awdurdod cysgodol" ("*shadow authority*") yw awdurdod sydd wedi ei benodi neu wedi ei ethol i gyflawni swyddogaethau a ragnodwyd drwy orchymyn cyfuno ac a ddaw'n awdurdod lleol newydd ar ddiwedd y cyfnod cysgodol;

ystyr "awdurdod lleol newydd" ("*new local authority*") yw awdurdod lleol a sefydlwyd drwy orchymyn cyfuno;

ystyr "awdurdod lleol presennol" ("*existing local authority*") yw'r awdurdod lleol ar gyfer ardal llywodraeth leol bresennol;

ystyr "Comisiwn Cymru" ("*Welsh Commission*") yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a sefydlwyd gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;

mae "corff cyhoeddus" ("*public body*") yn cynnwys—

(a) awdurdod lleol;

(b) cyd-fwrdd, neu gyd-bwyllgor, y mae awdurdod lleol wedi ei gynrychioli arno;

ystyr "cyfnod cysgodol" ("*shadow period*") yw cyfnod cyn y bydd aelodau o'r awdurdod lleol newydd yn cychwyn ar eu swydd;

ystyr "gorchymyn cyfuno" ("*amalgamation order*") yw gorchymyn o dan adran 162;

mae "staff" ("*staff*") yn cynnwys swyddogion a chyflogeion.

## RHAN 10

## CYFFREDINOL

### 172 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud onid oes drafft o'r gorchymyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) rheoliadau o dan adran 9(1)(i), Rhan 2, adran 140, 165 neu 166(2) ;

(b) gorchymyn o dan adran 127, 158, 162 neu 170;

(c) gorchymyn yn diwygio gorchymyn o dan adran 162;

(d) gorchymyn o dan adran 177 sy'n cynnwys addasiadau i ddeddfiad (ac eithrio deddfiad a geir mewn is-ddeddfwriaeth).

(3) O ran gofynion ychwanegol mewn perthynas â Gweinidogion Cymru'n gwneud gorchmynion o dan adrannau 127 a 162, gweler adrannau 173 a 169 yn ôl eu trefn.

(4) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn, ac eithrio offeryn nad yw ond yn cynnwys gorchymyn o dan adran 178 (cychwyn), yn ddarostyngedig i'w ddiddymu'n unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(5) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru o dan y Mesur hwn i gymhwyso deddfiad yn bŵer i'w gymhwyso gydag addasiadau neu hebddynt.

(6) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer (ond heb fod yn gyfyngedig iddo)—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol, neu ardaloedd daearyddol gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(c) i wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, drosiannol, ddarfodol, ganlyniadol, arbed, gysylltiedig a darpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol.

### 173 Y weithdrefn sy'n gymwys i orchmynion penodol o dan adran 127

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r adran hon cyn gwneud gorchymyn o dan adran 127 i roi effaith i gynigion i addasu deddfiad y maent o'r farn ei fod yn atal neu'n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer o dan adran 2(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (“y cynigion”).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) unrhyw gynghorau cymuned,

(b) unrhyw gynrychiolwyr cynghorau cymuned, ac

(c) unrhyw bersonau eraill (os oes rhai),

y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru y byddai'r cynigion yn debyg o effeithio arnynt.

(3) Os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl yr ymgynghori hwnnw, yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynigion, rhaid iddynt osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddogfen—

(a) sy'n esbonio'r cynigion,

(b) sy'n eu gosod ar ffurf gorchymyn drafft, a

(c) sy'n rhoi manylion yr ymgynghori o dan is-adran (2).

(4) Ni chaiff drafft o orchymyn o dan adran 127 i roi effaith i'r cynigion ("y gorchymyn drafft terfynol") gael ei osod gerbron y Cynulliad yn unol ag adran 172(2)(b) tan ar ôl i'r cyfnod o 60 niwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y ddogfen ynglŷn â'r cynigion ei gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3), ddirwyn i ben.

(5) Wrth gyfrifo'r cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (4), rhaid peidio ag ystyried unrhyw amser pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu wedi cymryd saib am fwy na phedwar diwrnod.

(6) Wrth baratoi'r gorchymyn drafft terfynol rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod a grybwyllwyd yn is-adran (4).

(7) Os caiff y gorchymyn drafft terfynol ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 172(2)(b), rhaid bod gyda'r gorchymyn ddatganiad gan Weinidogion Cymru sy'n rhoi manylion—

(a) unrhyw sylwadau a ystyriwyd yn unol ag is-adran (6), a

(b) unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynigion a oedd wedi eu cynnwys yn y ddogfen a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan is-adran (3) ac y mae effaith wedi ei rhoi iddynt yn y gorchymyn drafft terfynol.

(8) Nid oes dim yn yr adran hon sy'n gymwys i orchymyn o dan adran 127 sydd wedi'i wneud yn unswydd at y diben o ddiwygio gorchymyn cynharach o dan yr adran honno—

(a) fel ei fod yn ymestyn y gorchymyn cynharach, neu unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn cynharach, i gyngor cymuned penodol neu i gynghorau cymuned o ddisgrifiad penodol, neu

(b) fel bod y gorchymyn cynharach, neu unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn cynharach, yn peidio â bod yn gymwys i gyngor cymuned penodol neu i gynghorau cymuned o ddisgrifiad penodol.

### 174 Canllawiau a chyfarwyddiadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i roi canllawiau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer i amrywio neu ddirymu'r canllawiau a roddwyd.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer i amrywio neu ddirymu'r cyfarwyddiadau a roddwyd.

(3) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i roi canllawiau neu gyfarwyddiadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol, dibenion gwahanol, neu ardaloedd daearyddol gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol.

(4) Nid yw is-adrannau (1) i (3) yn cyfyngu ar y pwerau o dan y Mesur hwn i roi canllawiau neu gyfarwyddiadau.

## 175 Dehongli

Yn y Mesur hwn—

mae'r term "addasiadau" ("*modifications*") yn cynnwys diwygiadau, diddymiadau a dirymiadau (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt);

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor sir yng Nghymru;

mae "deddfiad" ("*enactment*") yn cynnwys y canlynol—

(a) deddfiad pryd bynnag y bydd wedi ei basio neu wedi ei wneud,

(b) deddfiad a gynhwysir yn y Mesur hwn, a

(c) darpariaeth a gynhwysir mewn is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978);

ystyr "rhagnodedig" (*"prescribed"*) yw rhagnodedig mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

## 176 Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

(1) Yn adran 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Cymru), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) The power of the Welsh Ministers to make an order under section 21A(13)(b) or section 21G is exercisable by statutory instrument.

(6) A statutory instrument which contains an order made by the Welsh Ministers under section 21A(13)(b) is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.

(7) A statutory instrument which contains an order under section 21G may not be made unless a draft of the instrument has been laid before, and approved by a resolution of, the National Assembly for Wales.".

(2) Mae Atodlen 4 (diddymiadau a dirymiadau) yn cael effaith.

(3) Nid yw dirymu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1086), gan is-adran (2) yn effeithio ar bŵer y Panel i ragnodi materion mewn perthynas â chynllun a wneir o dan Ran 2 o'r Rheoliadau hynny pan fo'r cynllun hwnnw'n weithredol yn ystod unrhyw ran o'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2011 (ac at y dibenion hyn, mae i "panel" a "blwyddyn ariannol" yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rhan 8 o'r Mesur hwn).

## 177 Y pŵer i wneud darpariaeth atodol

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol ac arbed y maent o'r farn eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r Mesur hwn.

(2) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-adran (1) yn cynnwys addasiadau i unrhyw ddeddfiad (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt).

(3) Mae'r addasiadau y caniateir eu gwneud yn rhinwedd is-adran (2) yn ychwanegol at y rhai a wnaed neu y caniateir eu gwneud o dan unrhyw ddarpariaeth arall yn y Mesur hwn.

## 178 Cychwyn

(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor—

(a) adrannau 58, 77, 79, 80 a 159;

(b) y Rhan hon (ac eithrio adran 176);

(c) Rhan E o Atodlen 4 (ac adran 176(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan E o Atodlen 4).

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis yn dechrau ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor—

(a) Rhannau 3 a 4;

(b) adran 55 ac adran 76;

(c) Penodau 2 i 9 o Ran 7;

(d) Rhannau B ac C o Atodlen 4 (ac adran 176(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhannau B ac C o Atodlen 4).

(3) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (1) a (2), daw'r Mesur hwn i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

## 179 Enw byr

Enw'r Mesur hwn yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.